

Cynnwys

ADRAN 1 – Cyflwyniad.....	5
Beth yw'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol?	5
Diben y canllaw hwn.....	5
Pa daliadau sydd ar gael gan y Cynllun?	5
Gwneud cais am daliad.....	6
Sut ydych chi'n gwneud cais am daliad?	6
Cael cymorth annibynnol gyda'ch cais	7
Cyngor annibynnol am ddim	7
Cynrychiolaeth â thâl.....	7
Mathau eraill o help	8
Ymgeisio ar ran plant.....	8
Ymgeisio ar ran oedolyn nad yw'n gallu gwneud cais ei hun	8
Os cawsoch eich anafu tu allan i Brydain Fawr	9
ADRAN 2 — Cymhwyster.....	10
Amgylchiadau pan allech fod yn gymwys am daliad	10
Dioddefydd uniongyrchol trosedd dreisgar.....	10
Hawlio wedi cyfnod o gamdriniaeth.....	11
Anaf wrth gymryd risg eithriadol a chyfiawn	12
Bod yn bresennol yn ac yn dyst i neu'n gysylltiedig â chanlyniad uniongyrchol digwyddiad	12
Anafiadau marwol	13
Amserlenni.....	14
Mae ymgeiswyr yn 18 oed neu hŷn ar ddyddiad y digwyddiad	14
Mae ymgeiswyr dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad	15
Cenedligrwydd a hawl preswyllo.....	15
Gofynion cymhwyster pellach	16

ADRAN 3 – Y broses ymgeisio.....	17
Gwneud cais	17
Tystiolaeth	17
Tystiolaeth feddygol	18
Eich rhwymedigaethau	19
Eich cydsyniad a llofnod	19
Sut fyddwn ni'n delio â'ch cais	20
ADRAN 4 – Mathau o daliadau a'u hamodau cymhwyster	21
Beth sy'n digwydd os oes gennych fwy nag un anaf?	21
Taliadau colli enillion	22
Hawlio colli enillion	23
Costau arbennig.....	23
Taliadau profedigaeth	26
Taliadau plentyn	26
Taliadau dibyniaeth	27
Dibyniaeth ariannol	27
Dibyniaeth gorfforol	28
Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn marw o'r anafiadau yn hwyrach?	28
Ble mae'r dioddefydd yn marw o achos digysylltiad cyn y gwneir taliad iddynt	29
Coll yn y dyfodol, costau arbennig a thaliadau dibyniaeth fel cyfandaliad	29
Taliadau angladd	30
ADRAN 5 – Atal neu leihau dyfarniad.....	31
Adrodd.....	31
Cydweithrediad gyda'r heddlu a'r System Gyfiawnder Droseddol	31
Cydweithrediad gyda ni neu gorff arall	31
Ymddygiad	32
Defnydd eithafol o alcohol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon.....	32

Cofnod troseddol.....	32
Cymeriad.....	33
Ymddygiad a chymeriad dioddefwyr ymadawedig	33
ADRAN 6 – Penderfyniadau a gweinyddu taliadau	34
Derbyn taliad	34
Sut fyddwn yn gwneud taliad	34
Taliadau i oedolion sy’n rheoli eu materion ariannol eu hunain	34
Taliadau dros dro.....	35
Ymddiriedolaethau	35
Blwydd-daliadau	35
Penodi dirprwy neu warchodwr	36
Os ydych dan 18 oed pan wneir y taliad.....	36
Ad-dalu gwobrau	37
ADRAN 7 – Ailagor achosion, adolygu ein penderfyniadau a sut i apelio	38
Ailagor achos	38
Adolygu ein penderfyniad	38
Apelio ar benderfyniad.....	39
ADRAN 8 – Gwasanaeth cwsmer.....	40
Beth ydym yn ofyn gennych chi.....	40
Ein hymroddiad i chi	40
Cwynion	41
Arolwg cwsmeriaid	41
Atodiad 1 - Rhagor o wybodaeth am gymhwyster ar gyfer unigolion sy’n breswylwyr a rhai nad ydynt yn breswylwyr	42
Fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig	42
Dulliau eraill o fodloni’r meini prawf preswyllo neu genedligrwydd	42
Tystiolaeth	45
Preswyllo	46

Cenedligrwydd.....	46
Aelod sy'n gwasanaethu o luoedd arfog Ei Mawrhydi	47
Atodiad 2 — Euogfarnau troseddol.....	48
Ystyried eich cofnod troseddol.....	48
Euogfarnau eraill	50
Dedfrydau a dderbyniwch wedi i chi wneud cais	52

ADRAN 1 – Cyflwyniad

Beth yw'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol?

1. Mae'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol yn gynllun a ariennir gan y llywodraeth i dalu iawndal i ddioddefwyr difai o droseddau treisgar. Ni all taliad fyth wneud iawn yn llwyr am yr anafiadau a ddioddefir, ond mae'n gydnabyddiaeth o gydymdeimlad y cyhoedd.
2. Mae'r Cynllun ar gyfer pobl sydd wedi eu hanafu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (Prydain Fawr). Mae gan Ogledd Iwerddon ei Gynllun ei hun, fel sydd gan nifer o wledydd eraill.
3. Gosodir rheolau'r Cynllun a gwerth y taliadau gan Senedd y DU. Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ('yr Awdurdod') sy'n gweinyddu'r rheolau hyn. Cyfrifir taliadau trwy gyfeirio at dariff o anafiadau. Dan amgylchiadau penodol, gallech hefyd fod â hawl i daliad atodol am golli enillion a chostau arbennig (gweler adran 4 y canllaw hwn am ragor o wybodaeth).

Diben y canllaw hwn

4. Mae'r canllaw hwn ar gyfer dioddefwyr difai troseddau treisgar neu eu cynrychiolwyr sy'n ystyried gwneud cais am, neu sydd wedi ymgeisio am, iawndal dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012) rydym yn galw hyn 'y Cynllun'). Mae Cynllun 2012 yn berthnasol i bob cais a dderbyniwyd ar neu wedi xx Tachwedd 2012. Mae copïau Saesneg o Gynllun 2012 ar gael.
5. Cyfeiria'r canllaw hwn at Gynllun 2012 yn unig a'r nod yw cynorthwyo ymgeiswyr i ddeall y Cynllun. Mae'n rhoi gwybod i chi sut i wneud cais a sut y delir ach cais ac yn esbonio'r rheolau cymhwyster a'ch cyfrifoldebau. Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'r Cynllun, sy'n dal i fod y ddogfen awdurdodol.
6. Gallwch gael copi o'r Cynllun hwn (neu Gynlluniau a chanllawiau cynharach os gwnaethoch gais cyn xx Tachwedd 2012) o'n gwefan www.justice.gov.uk/victims-and-witnesses/cica.

Pa daliadau sydd ar gael gan y Cynllun?

7. Gallwn ystyried hawliadau ar gyfer y canlynol:
 - anaf personol yn dilyn un digwyddiad;
 - anaf personol yn dilyn cyfnod o gamdriniaeth;
 - colli enillion;

- taliadau costau arbennig - i dalu am ofynion penodol yn ymwneud ag anaf nad ydynt ar gael yn rhad ac am ddim gan unrhyw ffynhonnell arall;
- anafiadau angheuol, yn cynnwys colli gwasanaethau rhieniol a dibyniaeth ariannol; a
- thaliadau angladd.

Gwneud cais am daliad

8. Bwriedir i'r Cynllun hwn fod yn un pan fetho popeth arall. rydym yn disgwyl i chi geisio hawlio iawndal gan yr unigolyn, neu unigolion, a achosodd eich anaf neu golled. Efallai y byddwch hefyd yn gallu hawlio gan rywun oedd yn gyfrifol am eich anaf yn anuniongyrchol. Fodd bynnag, os nad ydych yn gwybod pwy a'ch anafodd, neu os nad oes gan eich ymosodwr y modd i dalu iawndal i chi, gallwch hawlio dan y Cynllun.
9. Os ydych yn ceisio neu'n cynllunio hawlio iawndal gan rywun arall, rhaid i chi roi gwybod i ni wrth wneud eich cais a rhaid i chi ein hysbysu o gynnydd gyda'ch hawliad arall.
10. Rhaid i chi wneud eich hawliad i ni o fewn dwy flynedd i'r digwyddiad. Ni ddylech aros i weld a yw hawliadau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwneud penderfyniad terfynol ar eich achos nes y byddwch yn cadarnhau'ch bod wedi disbyddu pob llwybr arall i iawndal.

Sut ydych chi'n gwneud cais am daliad?

11. Rydym yn cynnig dwy ffordd i chi hawlio iawndal:
 - Ar-lein, yn www.justice.gov.uk/victims-and-witnesses/cica/apply-online; a
 - Dros y ffôn. Gall eich cynghorwyr Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid eich cynorthwyo i wneud hawliad dros y ffôn.
12. Rhoddir manylion llawn y broses ymgeisio yn Adran 3 y canllaw hwn.
13. Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys i dderbyn taliad, neu os oes gennych gwestiwn ynglŷn â'r broses ymgeisio, bydd staff ein Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid yn hapus i roi cyngor i chi.

<p>Am gyngor ar gymhwyster, neu os ydych eisiau i un o'n tîm eich helpu i wneud hawliad, ffoniwch 0300 003 3601.</p>

Mae'r tîm ar gael o 08:30 hyd 17:00 heblaw am ar Ddydd Mercher pan fyddwn ar agor o 10:00 hyd 17:00.

14. Ni fydd pob hawliad am iawndal yn llwyddiannus; rhaid i chi fod yn gymwys dan reolau'r Cynllun. Darperir gofynion cymhwyster yn Adran 2 y canllaw hwn.

Cael cymorth annibynnol gyda'ch cais

Cyngor annibynnol am ddim

15. Os ydych eisiau cyngor a chymorth annibynnol am ddim i gwblhau'ch cais, efallai y bydd hyn ar gael gan Gymorth i Ddiodefwyr neu sefydliadau elusennol eraill.

16. Mae Cymorth i Ddiodefwyr yn elusen annibynnol genedlaethol ar gyfer pobl wedi eu heffeithio gan drosedd. Maent yn darparu cefnogaeth am ddim a chyfrinachol, a chymorth ymarferol i ddiodefwyr a thystion troseddau. Gall eich helpu gyda'ch hawliad. Gallwch gysylltu â nhw trwy:

- ffonio'r Llinell Gefnogaeth Ddiodefwyr ar 0845 30 30 900 (Cymru a Lloegr) neu 0845 60 39 213 (Yr Alban);
- ymweld â'u gwefan yn www.victimsupport.org.uk neu www.victimsupportsco.org.uk; neu
- anfon e-bost at supportline@victimsupport.org.uk neu info@victimsupportsco.org.uk.

17. Ni all Cymorth i Ddiodefwyr ddarparu cyngor cyfreithiol.

18. Gallwch hefyd gael cyngor gan eich gwasanaeth Cyngor ar Bopeth lleol, canolfan y gyfraith neu gan sefydliad hawliad dynol. Os ydych yn aelod o undeb llafur, efallai y byddant yn gallu'ch helpu.

Cynrychiolaeth â thâl

19. Nid oes rhaid i chi dalu cynrychiolydd (er enghraifft, cyfreithiwr neu gwmni rheoli hawliadau) i wneud hawliad. Os byddwch yn dewis talu am gynrychiolydd, ni allwn dalu am gostau hyn, a bydd rhaid i chi dalu amdano eich hun. Pan fydd rhywun yn eich cynrychioli ar sail 'dim llwyddiant - dim ffi', mae hyn fel arfer yn golygu y byddant yn cadw cyfran o'ch taliad i dalu eu ffioedd. Dylech wirio pob tro faint o'ch taliad fydd yn mynd i'ch cynrychiolydd cyn i chi gytuno i dalu am gynrychiolaeth.

Mathau eraill o help

20. Gallwch ofyn i gyfaill neu berthynas wneud hawliad ar eich rhan ac/neu eich cynrychioli.

Ymgeisio ar ran plant

21. Os ydych yn ymgeisio ar ran plentyn sydd wedi ei anafu, dylech gwblhau'r ffurflen hawlio, gan ateb y cwestiynau o'r safbwynt mai chi yw'r unigolyn a anafwyd. Gofynnir i chi ddarparu eich manylion a phrawf o'ch perthynas i'r plentyn.

Ymgeisio ar ran oedolyn nad yw'n gallu gwneud cais ei hun

22. Os ydych yn ymgeisio ar ran oedolyn nad yw'n gallu gwneud cais ei hun, dylech gwblhau'r ffurflen hawlio trwy ateb y cwestiynau o'r safbwynt mai chi yw'r unigolyn a anafwyd yr ydych yn ei gynrychioli neu ei chynrychioli, a llofnodi'r hawliad ar ei ran neu ar ei rhan.

23. Gofynnir i chi hefyd ddarparu eich manylion. Ym mhob achos lle nad oes gan oedolyn y gallu i wneud ei hawliad ei hun, byddwn angen manylion llawn eich statws a graddau eich grymoedd cyfreithiol yn ogystal â thystiolaeth fod gennych hawl i weithredu ar eu rhan.

24. Os nad oes gan yr unigolyn rywun sydd â hawl i weithredu ar eu rhan yn barod, yna gallech ystyried gwneud cais i'r Llys Gwarchod i benodi dirprwy (Cymru a Lloegr) neu warchodwr lles ariannol am orchymyn ymyrraeth (Yr Alban). Ceir rhagor o wybodaeth yn www.publicguardian.gov.uk (Cymru a Lloegr) neu www.publicguardian-scotland.gov.uk (Yr Alban). Bydd hyn yn caniatáu i'r dirprwy neu warcheidwad:

- awdurdodi'r holl ymholiadau fydd angen i ni eu gwneud i eraill;
- benderfynu a ddylid derbyn taliad ar ran y sawl a anafwyd;
- ofyn am adolygiad; neu
- wneud apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iawndal Anafiadau Troseddol).

25. Dan yr amgylchiadau hyn, byddwn hefyd angen i chi roi tystiolaeth feddygol i ni o ddiffyg cymhwyster yr unigolyn yr ydych yn cynrychioli, neu os yw'n 'analluog oherwydd anhwylder meddyliol', o fewn ystyr y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (Cymru a Lloegr) neu Ddeddf Oedolion gydag Anallu (yr Alban) 2000.

Os cawsoch eich anafu tu allan i Brydain Fawr

26. Os ydych yn breswlydd y Deyrnas Unedig (DU) ac y cawsoch eich anafu o ganlyniad i drosedd dreisgar mewn gwlad arall sy'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd (UE), gallwch eich helpu i wneud cais am iawndal gan y wlad honno. Ffoniwch ein Tîm Cymorth yr UE ar 0300 003 3061 neu anfon e-bost at eucat@cica.gsi.gov.uk. Ceir manylion cynlluniau iawndal mewn gwledydd eraill ar Atlas Barnwrol yr UE ar y rhyngrwyd.
27. Os cawsoch eich anafu tu allan i'r UE, efallai y byddwch yn gallu gwneud cais dan gynllun tebyg a weithredir gan y wlad dan sylw. cysylltwch â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad am ragor o wybodaeth.
28. Os cawsoch eich anafu yng Ngogledd Iwerddon, dylech gysylltu â:

The Compensation Agency
Sixth Floor Millennium House
25 Great Victoria Street
Belfast
BT2 7AQ
Ffôn: 0300 200 7887.

29. Os oeddech yn byw fel arfer yn y Deyrnas Unedig ac y cawsoch eich anafu tu allan i'r Deyrnas Unedig mewn ymosodiad terfysgol, efallai y gallech hawlio dan y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor. Gweler ein gwefan am ragor o wybodaeth yn www.justice.gov.uk/victims-and-witnesses/cica/victims-of-overseas-terrorism.

ADRAN 2 — Cymhwyster

Amgylchiadau pan allech fod yn gymwys am daliad

1. Gallech gael taliad os:
 - oeddech yn ddiodefydd uniongyrchol trosedd dreisgar;
 - nad oeddech ar fai am y digwyddiad;
 - cawsoch anaf wrth gymryd risg eithriadol ac y gellir ei chyfiawnhau, wrth geisio unioni neu atal trosedd;
 - cawsoch anaf meddyliol o ganlyniad i fod yn dyst i neu ymwneud â chanlyniad uniongyrchol digwyddiad lle mae anwylyn wedi cael anaf; neu
 - rydych yn berthynas cymwys o ddiodefydd a fu farw o anafiadau a achoswyd gan drosedd dreisgar.

Dioddefydd uniongyrchol trosedd dreisgar

2. Mae dioddefwr uniongyrchol yn rhywun a anafwyd yn uniongyrchol gan ymosodwr.
3. Nid oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o'r term 'trosedd treisgar'. Fodd bynnag, mae Atodiad B y Cynllun yn disgrifio'r mathau o droseddau treisgar allai arwain at anaf y gellir cael iawndal amdano gan y Cynllun.
4. Gallech fod yn gymwys i dderbyn taliad os oedd yr anaf troseddol a gawsoch yn deillio o:
 - ymosodiad corfforol;
 - unrhyw weithred neu esgeulustod o natur dreisgar sy'n achosi anaf corfforol i rywun;
 - bygythiad yn erbyn unigolyn, yn achosi ofn o drais uniongyrchol dan amgylchiadau fyddai'n achosi i unigolyn o gadernid rhesymol i fod mewn ofn o'r fath;
 - ymosodiad rhywiol lle nad oedd yr unigolyn yn cydsynio; neu
 - losgi bwriadol neu gynnau tân.
5. Dim ond os oedd bwriad ar ran yr ymosodwr i achosi niwed i chi fydd yr uchod yn cyfateb i drosedd, neu os oedd yr anaf o ganlyniad i ymddygiad bwriadol neu anystyriol gan unigolyn oedd yn debygol o

fod wedi rhagweld y byddai eu gweithredoedd yn achosi anaf sylweddol i rywun arall, ac iddynt fwrw ymlaen er gwaethaf hyn.

6. Ystyrir esgeulustod i fod yn drosedd dreisgar os gellid disgrifio'r esgeulustod fel un o natur dreisgar (megis ymatal rhywbeth y mae rhywun arall ei angen i ddal i fyw yn fwriadol) ac wedi arwain at anaf personol.
7. Gallwch hefyd drin gweithred fel trosedd os nad yw'r ymosodwr yn alluog oherwydd gwallgofrwydd a heb y gallu meddyliol angenrheidiol, neu'n blentyn sydd dan oed atebolrwydd troseddol ond sy'n deall canlyniadau ei weithredoedd neu ei gweithredoedd.
8. Ni fyddwch yn gymwys am daliad os yw'r anaf a gawsoch:
 - yn deillio o hunanladdiad neu ymgais ar hunanladdiad, oni nai i'w unigolyn hunanladdol weithredu gyda'r bwriad i achosi anaf i rywun arall;
 - yn deillio o ddefnyddio cerbyd, oni bai y defnyddiwyd y cerbyd gyda'r bwriad o achosi anaf i unigolyn;
 - yn deillio o ymosodiad gan anifail, oni bai y defnyddiwyd yr anifail gyda'r bwriad o achosi anaf i unigolyn;
 - wedi ei ddioddef yn ystod chwaraeon neu weithgaredd arall arferol lle roedd yr unigolyn yn cydsynio i gymryd rhan yn y gweithgaredd; neu
 - wedi ei ddioddef *in utero* o ganlyniad i'r fam yn amlyncu sylweddau niweidiol yn ystod beichiogrwydd, gyda'r bwriad o achosi, neu fod yn ddi-hid ynghylch, anaf i'r ffoetws.
9. Ym mharagraff 8, golyga 'cerbyd' ddyfais y gellir ei ddefnyddio i gludo unigolion, anifeiliaid neu nwyddau, ar dir, dŵr neu aer.

Hawlio wedi cyfnod o gamdriniaeth

10. Os ydych chi, neu rywun y mae gennych gyfrifoldeb drostynt, wedi cael anaf oherwydd cyfnod o gamdriniaeth gorfforol neu rywiol, gallwch hawlio iawndal.
11. Os cawsoch eich cam-drin yn blentyn, rydym yn gwerthfawrogi nad ydych o reidrwydd wedi teimlo y gallech adrodd ar y digwyddiad am gyfnod wedi i'r gamdriniaeth ddigwydd. Ni waeth pa mor bell yn ôl y digwyddodd y gamdriniaeth, dylech ei adrodd i'r heddlu cyn i chi hawlio. Bydd angen i ni wirio gyda'r heddlu yr adroddwyd ar y

drosedd. Os nad ydych wedi adrodd y digwyddiad i'r heddlu, byddwn yn gwrthod eich hawliad.

Anaf wrth gymryd risg eithriadol a chyfiawn

12. Gall y Cynllun hefyd dalu iawndal i chi os cewch eich anafu wrth geisio atal neu unioni canlyniadau trosedd (er enghraifft, lle roeddech yn ceisio helpu'r heddlu i ddal rhywun a amheuir o gyflawni trosedd).
13. Os ydych yn hawlio dan y darpariaethau hyn, bydd angen ein bodloni eich bod yn cymryd risg eithriadol ac y gellid cyfiawnhau'r risg honno dan yr holl amgylchiadau.
14. Wrth benderfynu a oedd y risg yn **eithriadol**, byddwn yn ystyried os oedd yr hyn a wnaethoch yn anarferol, ac nad oedd yn rhywbeth lle mae gennych hyfforddiant i ddelio â'r sefyllfa. Ni fyddwn yn talu iawndal i bobl gafodd eu hanafu wrth wneud rhywbeth fyddai'n ddisgwyliedig ganddynt yn ystod eu cyflogaeth arferol.
15. Wrth ystyried a oedd **cyfiawnhad** i'r risg, byddwn yn ystyried yr holl amgylchiadau, yn cynnwys difrifoldeb y sefyllfa, ac a oedd bygythiad uniongyrchol i'r rhai oedd ynghlwm.

Bod yn bresennol yn ac yn dyst i neu'n gysylltiedig â chanlyniad uniongyrchol digwyddiad

16. Efallai'ch bod yn gymwys i wneud hawliad am anaf meddyliol os oeddech yn **dyst i, ac yn bresennol yn ystod digwyddiad** pan gafodd anwylyn anaf o ganlyniad i drosedd dreisgar. Gallech hefyd fod yn gymwys os oeddech **ynghlwm â chanlyniad uniongyrchol digwyddiad** lle cafodd anwylyn anaf.
17. Wrth ddweud 'uniongyrchol', rydym yn cyfeirio at y digwyddiad ei hun, ac nid y digwyddiadau allai ddilyn digwyddiad (fel delio gyda'r heddlu ac awdurdodau meddygol). Wrth sôn am 'ganlyniad' rydym yn golygu'r hyn a ddigwyddodd yn syth wedi'r digwyddiad. I ddibenion y Cynllun hwn, fe gymerir fod hyn yn golygu cyrraedd lleoliad y ddamwain cyn symud y dioddefwr i leoliad arall.
18. Os ydych yn hawlio taliad am i chi fod yn dyst i, neu'ch bod ynghlwm â chanlyniad uniongyrchol anaf anwylyn, rhaid eich bod wedi dioddef anaf meddyliol o ganlyniad. Byddwch angen diagnosis seiciatrig i gadarnhau fod hyn yn wir.

Anafiadau marwol

19. Os ydych yn ddibynnydd ac/neu berthynas agos i rywun sy'n marw o ganlyniad i'w anafiadau, efallai y byddwch yn gallu hawlio taliad. I fod yn gymwys i dderbyn taliadau o'r fath, rhaid i chi fod yr hyn mae'r Cynllun yn ei alw'n 'berthynas cymwys'. Mae hyn yn rhywun a oedd, pan fu farw'r dioddefydd, yn un o'r grwpiau canlynol:
- yn gymar neu bartner cofrestredig i'r dioddefwr dan y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004. Rhaid eich bod naill ai wedi bod yn byw gyda'ch gilydd yn yr un cartref ar adeg marwolaeth yr ymadawedig neu, os nad oeddech yn byw gyda'ch gilydd, rhaid bod hyn oherwydd salwch neu anhwylder;
 - yn bartner dibriod y dioddefwr, os oeddech yn cydfyw fel gŵr a gwraig neu fel partneriaid o'r un rhyw (ond heb gofrestru dan y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004), pan fu farw'r dioddefwr ac am o leiaf dwy flynedd cyn hynny;
 - yn rhieni naturiol neu fabwysiadol yr ymadawedig, neu'n rhywun yr oedd yr ymadawedig yn derbyn yn rôl rhiant ac a ddarparodd yr ymadawedig â gwasanaethau rhieniol;
 - yn blentyn i'r dioddefwr, neu'n rhywun yr oedd yr ymadawedig yn ei dderbyn fel plentyn ac a oedd yn ddibynnol ar yr ymadawedig am wasanaethau rhieniol.
19. Gellid hefyd ystyried eich bod yn 'berthynas cymwys' os ydych yn gyn gymar neu bartner cofrestredig dan y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 i'r dioddefwr a'ch bod yn ariannol ddibynnol ar y dioddefwr pan fuont farw. Mewn achos o'r fath, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am daliad dibyniaeth. Ni fyddwch yn gymwys i dderbyn taliad profedigaeth.
20. Nid yw'r diffiniad o 'plentyn' wedi ei gyfyngu i rywun sydd dan 18 oed. Mae'n cynnwys plant sy'n oedolion a phlentyn i'r ymadawedig nad yw wedi ei eni, a genhedlwyd cyn iddynt farw ac a aned wedi iddynt farw. Gall rhieni dioddefwr dderbyn taliad ni waeth beth yw oed y dioddefwr.
21. Efallai y byddwch yn gallu cael taliad os yw'r dioddefwr wedi marw o'i anafiadau, hyd yn oed os gwnaethom daliad i'r dioddefwr cyn iddo ef neu hi farw.
22. Ni all rhywun oedd yn gyfrifol am farwolaeth dioddefwr gael taliad o ganlyniad i'r farwolaeth.

23. Ni allwn wneud taliad i berthynas cymwys os oeddynt wedi dieithrio o'r dioddefwr pan fu farw.
24. Fel gyda phob hawliad, os arweiniodd neu y cyfrannodd ymddygiad y dioddefwr at y digwyddiad lle cafodd ei anafu neu ei hanafu'n angheuol, ni fyddwn fel arfer yn gwneud taliad. Ble mae'r dioddefwr yn marw o'i anafiadau, rhaid i ni weithredu'r rheolau hyn i'r dioddefwr a'r ymgeisydd.
25. Fel arfer ni fydd natur yr ymadawedig, fel y gwelir o'u heuogfarnau troseddol, yn cael ei ystyried. Fodd bynnag, byddwn yn gwrthod gwneud taliad lle roedd euogfarnau neu droseddau'r ymadawedig mor ddifrifol fel y byddai talu am eu hangladd, neu wneud taliadau eraill, yn ddefnydd amhriodol o arian cyhoeddus. Bydd sefyllfaoedd lle gallem ystyried y byddai'n amhriodol i wneud dyfarniad yn cynnwys os oedd yr ymadawedig:
- ar ddedfryd o garchar ar adeg y digwyddiad;
 - gyda hanes hir o ymwneud â throseddau treisgar;
 - yn hysbys fel eithafwr oedd wedi ysgogi casineb neu drais; neu
 - yn aelod hysbys o gang yn ymwneud â throseddau treisgar.
26. Dim ond euogfarnau nad ydynt wedi 'darfod' dan y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr fyddwn ni'n eu hystyried.

Amserlenni

Mae ymgeiswyr yn 18 oed neu hŷn ar ddyddiad y digwyddiad

27. Rhai i chi wneud cais am daliad o fewn dwy flynedd i'r digwyddiad a arweiniodd at eich anaf. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn ymestyn y terfyn amser hwn, ond dim ond lle:
- roedd amgylchiadau'ch anaf yn golygu nad oedd yn rhesymol disgwyl i chi wneud cais o fewn y terfyn dwy flynedd; ac
 - golyga'r dystiolaeth a gyflenwch i gefnogi eich cais y gallwn wneud penderfyniad heb ymholiadau helaeth pellach.
28. Wrth benderfynu a oes rhesymau eithriadol dros beidio ymgeisio'n gynharach, byddwn yn ystyried:
- a oes dystiolaeth feddygol neu seiciatrig ar gael sy'n dangos nad oedd yn bosibl i chi fod wedi ymgeisio yn gynharach; ac

- mae tystiolaeth glir ar gael fod yna drosedd o drais ac mai chi oedd y dioddefwr. Byddwn yn gwneud ymholiadau sylfaenol gyda'r heddlu, ond bydd angen i chi allu darparu tystiolaeth y buoch yn ddioddefwr trosedd treisgar ac i chi ddiodeff anaf o ganlyniad.

29. Ni fyddem fel arfer yn ystyried diffyg gwybodaeth yr ymgeisydd o'r Cynllun i fod yn "rheswm eithriadol".

Mae ymgeiswyr dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad

30. Os ydych dan 18 oed, mae'n well cael rhywun i wneud cais ar eich rhan cyn gynted â phosibl. Mae hyn oherwydd y gall fod yn anoddach i chi ddarparu tystiolaeth i chi gael anaf o ganlyniad i drosedd dreisgar os byddwch yn aros tan yn hwyrach.
31. Os adroddwyd y digwyddiad neu gyfnod o gamdriniaeth i'r heddlu cyn i chi droi'n 18 oed, ac na wnaeth neb hawliad ar eich rhan, byddwn yn derbyn hawliad gennych ar yr amod eich bod yn ei wneud cyn i chi droi'n 20 oed.
32. Os oedd y digwyddiad neu gyfnod o gam-drin wedi digwydd cyn i chi droi'n 18 oed, ond na chafodd ei adrodd i'r heddlu ar y pryd, yna byddwn yn ystyried eich hawliad os y'i gwnaethpwyd o fewn dwy flynedd i pan adroddwyd ar y digwyddiad i'r heddlu gyntaf.

Cenedligrwydd a hawl preswyllo

33. Dim ond os ydych yn bodloni'r gofynion cenedligrwydd a phreswyllo fyddwch chi'n gymwys am daliad. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi fod wedi bod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig ar ddyddiad y digwyddiad ac y bodlonir un o'r amodau canlynol:

- eich bod yn ddinesydd Prydeinig;
- rydych yn berthynas agos i ddinesydd Prydeinig;
- rydych yn wladolyn aelod wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd (UE) neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE);
- rydych yn aelod o deulu gwladolyn UE/AEE sydd â'r hawl i fod yn y Deyrnas Unedig;
- rydych yn wladolyn i Wladwriaeth sy'n rhan o Gonfensiwn Ewrop ar Ddigolledu Dioddefwyr Troseddau Treisgar (CETS Rhif 116, 1983);
- rydych yn aelod o luoedd arfog Ei Mawrhydi, neu'n berthynas agos sy'n teithio gydag aelod o'r lluoedd arfog;
- rydych wedi'ch nodi fel dioddefwr posibl o fasnachu mewn pobl ar neu cyn dyddiad eich cais;

- rydych wedi gwneud cais am loches i barhau yn y Deyrnas Unedig ar neu cyn dyddiad eich cais am ddyfarniad.

34. Ceir rhagor o wybodaeth ar ofynion cymhwyster cenedligrwydd a hawl i breswyllo (yn cynnwys masnachu mewn pobl a lloches) yn Atodiad 1.

35. Pan fyddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth rydym ei hangen gennych i sefydlu'ch hawl i breswyllo a chenedligrwydd, a byddwn yn gwirio hyn yn ôl y galw. Os nad ydych yn cyflenwi'r wybodaeth ofynnol, efallai y byddwn yn gwrthod eich taliad.

Gofynion cymhwyster pellach

36. Ni allwch gael taliad os:

- na adroddwyd ar y digwyddiad neu gyfnod o gam-drin a arweiniodd at yr anaf i'r heddlu;
- cawsoch eich anafu cyn 1 Awst 1964;
- ydych chi eisoes wedi gwneud cais am iawndal ar gyfer yr un anaf troseddol, p'un a yw dan y Cynllun hwn neu unrhyw un arall (os ydych yn gwneud cais am iawndal ar gyfer yr un anaf fwy nag unwaith yn fwriadol, byddwch yn cael eich erlyn am dwyll);
- digwyddodd yr anaf cyn 1 Hydref 1979 ac yr oeddech chi a'r sawl a'ch anafodd yn byw gyda'ch gilydd ar y pryd fel aelodau o'r un teulu (newidiwyd y Cynllun yn y cyfnod hwn);
- digwyddodd yr anaf ar neu wedi 1 Hydref 1979 ac yr oeddech chi a'r sawl a'ch anafodd yn oedolion yn byw gyda'ch gilydd fel aelodau o'r un teulu ar y pryd, ac yn parhau i wneud hynny;
- gallai'r sawl a'ch anafodd elwa o'ch gwobr gan fod yna gyswllt achos parhaus rhyngoch (y dioddefwr) a'r ymosodwr.

ADRAN 3 – Y broses ymgeisio

Gwneud cais

1. I gael ystyried eich cais, rhaid i chi gwblhau'n ffurflen gais. Gallwch wneud cais [ar-lein](http://www.justice.gov.uk/victims-and-witnesses/cica/apply-online) yn www.justice.gov.uk/victims-and-witnesses/cica/apply-online. Os nad oes gennych fynediad at gyfeiriadur, neu os yr hoffech help i gwblhau eich cais, gallwch ofyn i un o'n staff gwblhau'r ffurflen i chi dros y ffôn (0300 003 3601).
2. Chi sy'n gyfrifol am brofi eich bod yn gymwys i gael taliad. Golyga hyn y bydd angen i chi ein darparu â'r dystiolaeth angenrheidiol i benderfynu ar eich achos. Yn ogystal â'r dystiolaeth a ddarperir gennych, efallai y byddwn yn cael adroddiad gan yr heddlu, ac os oes angen, byddwn yn comisiynu a thalu am dystiolaeth feddygol atodol.
3. Ni fyddwn yn ymchwilio ymhellach i'ch hawliad nes y byddwn yn gwybod eich bod yn debygol o fodloni'r meini prawf cymhwyster sylfaenol a sefydlwyd yn Adran 2 y canllaw hwn. Cyn i ni ofyn i chi am unrhyw dystiolaeth, byddwn yn ceisio siarad â chi, neu'ch cynrychiolydd, dros y ffôn i sefydli pa dystiolaeth sydd ei hangen i benderfynu ar eich hawliad. Os ydych wedi dynodi ar eich ffurflen gais nad ydych eisiau delio â ni dros y ffôn, byddwn yn defnyddio eich dull dewisol o gyfathrebu (e-bost neu lythyr).

Tystiolaeth

4. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:
 - prawf eich bod yn bodloni'r gofynion preswyllo;
 - dystiolaeth feddygol sylfaenol sy'n dangos i chi ddiodeff anaf y gellir cael iawndal amdano dan y Cynllun (yn achos ymosodiad rhywiol dim ond os ydych yn hawlio am anaf sy'n gofyn am farn feddygol y bydd hyn yn ofynnol).
5. Byddwn yn casglu'r dystiolaeth ganlynol:
 - cadarnhad gan yr heddlu yr adroddwyd ar y digwyddiad lle cawsoch eich anafu i'r heddlu;
 - cadarnhad gan yr heddlu ac/neu dystion na chyfrannodd eich ymddygiad i'r digwyddiad lle derbynioch eich anafiadau;
 - dystiolaeth feddygol atodol, yn ôl y galw.

Tystiolaeth feddygol

6. Pan fyddwn yn cytuno fod angen tystiolaeth feddygol, bydd disgwyl i chi fodloni costau darparu tystiolaeth feddygol gychwynnol hyd at gost o ddim mwy na £50. Ble gallwch arddangos nad yw'n rhesymol i chi allu fforddio ei gael, neu os yw'r gost yn fwy na £50, byddwn yn ystyried talu'r costau. Ble byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn didynnu'r gost (hyd at yr uchafswm o £50) o unrhyw daliad.
7. Efallai y byddwn angen tystiolaeth feddygol atodol neu arall os yw'ch anafiadau yn gymhleth neu os ydych yn hawlio am salwch meddyliol. Efallai y byddwn hefyd angen gwirio a oes gennych unrhyw anhwylderau cynharach, os nad yw hynny eisoes wedi ei gynnwys yn y dystiolaeth feddygol gychwynnol. Dan yr amgylchiadau hyn, byddwn naill ai'n gofyn i'r ymarferydd sy'n eich trin am adroddiad, neu gallwn drefnu i chi weld arbenigwr arall. Ble byddwn yn gofyn am dystiolaeth feddygol neu seiciatrig atodol, ni fydd yn talu'r gost o'i gael.
8. Os byddwn yn gofyn i chi weld arbenigwr, rhaid i chi gadw'r apwyntiad. Byddwn yn talu eich costau teithio rhesymol i ac o'r apwyntiad. Os byddwch yn colli'r apwyntiad, heb reswm da, gallwn ddidynnu unrhyw gostau y bu'n rhaid i ni dalu o unrhyw daliad a wneir gennym.
9. Os ydych yn darparu'ch tystiolaeth feddygol eich hun i gefnogi'ch hawliad, ni fyddwn yn talu unrhyw gyfran o hyn, oni bai ein bod yn ddibynnol arno i benderfynu ar yr hawliad.
10. Os ydych yn gymwys am daliad dan y tariff o anafiadau (a restrir yn Atodiad 3), gallech hefyd fod yn gymwys am daliad am golli enillion. Dim ond os yw'ch anafiadau wedi achosi i chi fod heb unrhyw allu, neu gallu cyfyngedig iawn, i gyflawni gwaith cyflogedig fydd hyn yn wir. I hawlio colli enillion, rhaid i chi allu dangos eich bod naill ai mewn gwaith cyflogedig ar adeg y digwyddiad, mewn gwaith cyflogedig rheolaidd am o leiaf tair blynedd yn syth wedi'r dyddiad pan gawsoch eich anafu; neu fod gennych reswm da dros beidio bod mewn gwaith cyflogedig rheolaidd yn ystod y tair blynedd hynny. Ceir rhagor o wybodaeth ar hawlio colli enillion yn Adran 4.
11. Gallech hefyd hawlio am gostau arbennig os yw'ch anafiadau yn golygu eich bod angen gofal a chefnogaeth barhaus nad yw ar gael am ddim gan ffynhonnell arall. Ceir rhagor o wybodaeth ar hawlio costau arbennig yn Adran 4.

Eich rhwymedigaethau

12. Amlinella paragraff 91 y Cynllun rwymedigaethau'r ymgeisydd. Rhaid ichi:

- wneud eich cais ar y ffurflen sydd ar gael gennym, gan naill ai gwblhau hyn ar-lein, neu dros y ffôn;
- gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu amod gan swyddog ceisiadau. Er enghraifft, trwy gadw ar apwyntiadau meddygol neu seiciatrig a darparu unrhyw ddogfennau yr hoffem weld sy'n cefnogi eich hawliad;
- hysbysu'r swyddog ceisiadau o unrhyw geisiadau eraill sydd gennych ar y gweill - neu achosion yr ydych yn ymwneud â nhw - parthed yr un anafiadau ac i roi gwybod i ni am gynnydd unrhyw hawliad neu achos o'r fath;
- cynorthwyo'r swyddog ceisiadau, ac unrhyw gorff neu unigolyn arall, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarfer parthed yr ystyriaeth o'ch cais; a
- darparu'r swyddog ceisiadau ag unrhyw newid yn eich cyfeiriad gohebu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Eich cydsyniad a llofnod

13. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu cydsyniad wedi ei lofnodi i ryddhau'r holl gofnodion, tystiolaeth a gwybodaeth arall berthnasol amdanoch chi ac amgylchiadau eich anaf. Bydd hyn yn ein helpu i wneud y penderfyniad priodol ynglŷn â'ch hawliad. Byddwn yn edrych ar:

- y dystiolaeth a roddoch i'r heddlu;
- cofnodion troseddol; a
- tystiolaeth feddygol atodol (os oes angen).

14. Os ydych yn hawlio am golli enillion neu gostau arbennig, efallai y byddwn yn edrych ar wybodaeth ynglŷn â'ch incwm gan yr Adran Waith a Phensiynau ac/neu Gyllid a Thollau EM.

15. Byddwn yn gofyn i chi gadarnhau fod yr wybodaeth a roddwch yn eich hawliad yn wir. Os gwelwn eich bod wedi rhoi gwybodaeth anwir i ni ar bwrpas neu na roddoch yr wybodaeth y gofynnem amdani i ni (er enghraifft, cofnodion troseddol neu fanylion ceisiadau eraill), byddwn yn gwrthod eich cais.

Sut fyddwn ni'n delio â'ch cais

16. Pan fyddwn wedi derbyn cais cyflawn gennych, byddwn yn rhoi cyfeirnod personol i chi a fydd yn ein helpu i'w nodi yn fuan os bydd angen i chi gysylltu â ni.
17. Bydd un o'n timau gwaith achos rhanbarthol yn delio â'ch cais. Os byddwch yn ffonio am gyngor neu ddiweddariad ar eich cais, byddwch yn siarad ag un o'n cynghorwyr Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid. Byddwn yn ceisio ateb eich ymholiad pan fyddwch ar y ffôn, ond os na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn trefnu i gysylltu yn ôl â chi ar adeg sy'n gyfleus.
18. Bydd faint o amser fydd angen i asesu'ch cais yn amrywio yn ddibynnol ar ei gymhlethdod. Er enghraifft, bydd ceisiadau colli enillion a chostau arbennig yn cymryd mwy o amser na'r rhai yn ymwneud â thaliad a wneir dan y tariff o anafiadau yn unig. Ni fyddwn yn cwblhau'ch cais nes i chi gadarnhau'ch bod wedi gwella, cymaint ag sy'n bosibl, o'ch anafiadau.
19. Pan fydd gennym yr holl dystiolaeth sydd ei hangen arnom i benderfynu ar eich achos, bydd yn cael ei basio ymlaen at swyddog ceisiadau. Bydd swyddogion ceisiadau yn penderfynu ar achosion yn ôl yr hyn a elwir yn 'bwysau tebygolrwydd'. Golyga hyn fod eu penderfyniad yn seiliedig ar eu barn o beth sy'n fwyaf tebygol o fod wedi digwydd na beth sydd wedi digwydd.
20. Byddwn yn eich hysbysu o'ch penderfyniad ar eich cais cyn gynted ag y bydd wedi ei wneud. Os ydym wedi gostwng neu wrthod taliad, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam. Byddwn yn anfon gwybodaeth atoch ynglŷn â beth i'w wneud os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad.

ADRAN 4 – Mathau o daliadau a’u hamodau cymhwyster

1. Mae’r Cynllun yn darparu taliadau iawndal i’r rhai gyda’r anafiadau mwyaf difrifol a’r rhai sydd wedi dioddef y troseddau mwyaf trallodus. Gallwn ystyried hawliad am un neu fwy o’r mathau canlynol o daliad:
 - taliadau anafiadau;
 - taliadau colli enillion;
 - taliadau costau arbennig;
 - taliadau profedigaeth;
 - taliadau plant;
 - taliadau dibyniaeth;
 - taliadau penodol eraill mewn achosion angheuol;
 - taliadau angladd.
2. Efallai y byddwch yn gymwys am daliad dan y Cynllun os disgrifir eich anaf troseddol yn y tariff o anafiadau a geir yn Atodiad 3. Os oedd gennych eisoes anaf a restrir yn y tariff ond ei fod wedi ei waethygu o ganlyniad i drosedd dreisgar, efallai y bydd gennych hawl i daliad o hyd. Ble mae gwerth cyflymiad neu waethygiad cyflwr presennol yn llai na £1,000, ni wneir unrhyw daliad.
3. Os ydych yn dioddef anaf meddyliol o ganlyniad i ymosodiad rhywiol, byddwn yn talu naill ai gwerth y tariff ar gyfer y math o ymosodiad neu werth yr anaf meddyliol. Byddwn yn talu pa bynnag un sydd â’r gwerth uchaf; nid fyddwch yn derbyn taliad am y ddau. Mae hyn oherwydd bod y tariff am ymosodiad rhywiol yn ystyried y trawma meddyliol.
4. Os fyddwch angen triniaeth o ganlyniad i’r anaf, ni fyddwch yn derbyn taliad ar wahân am greithio yn deillio o’r driniaeth.

Beth sy’n digwydd os oes gennych fwy nag un anaf?

5. Os oes gennych ddau anaf neu fwy sydd mor ddifrifol fel y byddai pob un yn gymwys ynddo’i hun, bydd gennych hawl i:
 - 100 y cant o’r gwerth tariff llawn ar gyfer yr anaf mwyaf difrifol; a

- 30 y cant o swm y tariff ar gyfer yr anaf gyda gwerth cyfartal neu ail uchaf; a
 - 15 y cant o swm y tariff ar gyfer unrhyw anaf atodol gyda gwerth cyfartal neu drydydd uchaf.
6. Nid yw'r cynllun yn caniatáu i ni dalu am fwy na thri anaf. fodd bynnag, mae yna daliadau tariff atodol y gallwch eu derbyn os, o ganlyniad uniongyrchol i'ch anaf neu ymosodiad, byddwch yn:
- dod yn feichiog;
 - colli ffoetws; neu
 - dal clefyd a drosglwyddir yn rhywiol.

Taliadau colli enillion

7. Os na allwch weithio o ganlyniad uniongyrchol i anaf troseddol, gallech fod yn gymwys i hawlio taliad colli enillion.
8. Rhaid i'ch anaf troseddol fod yn ddigon difrifol i fod wedi arwain at analluoedd llwyr i gyflawni gwaith cyflogedig, neu allu cyfyngedig iawn i wneud hynny. Trwy allu cyfyngedig iawn, rydym yn golygu fod graddau eich anafiadau yn golygu na allwch gyflawni mwy nag ychydig oriau o waith cyflogedig yr wythnos. Os oes gennych y gallu i wneud gwaith cyflogedig, ond fod y math o waith yn gyfyngedig iawn oherwydd eich anafiadau, ni fyddwch yn gymwys am daliad colli enillion.
9. Rhaid i chi hefyd allu darparu tystiolaeth i ddangos:
- eich bod mewn gwaith ar adeg y digwyddiad; neu
 - fod gennych hanes sefydlog o waith, neu reswm da dros beidio cael hanes o'r fath, yn ystod y tair blynedd yn union cyn y digwyddiad; ac
 - bod eich colled wedi parhau'n hirach na 28 wythnos lawn. Bydd y cyfnod o 28 wythnos fel arfer yn rhedeg o ddyddiad yr anaf. Ni allwch gael taliad colli enillion am 28 wythnos gyntaf y golled.

Hawlio colli enillion

10. Pan fyddwn yn cael eich cais, byddwn yn dweud wrthych ba wybodaeth fyddwn ei hangen gennych ac yn gwirio hyn fel sydd angen. Bydd disgwyl i chi ddarparu tystiolaeth yn cefnogi'ch hawliad am golli enillion. Gallai hyn fod yn slipiau cyflog neu P60 am y cyfnod yn union cyn i chi gael eich anafu, neu gynnig ffurfiol o swydd nad oeddech yn gallu ei derbyn am eich bod wedi'ch anafu. Os oeddech yn hunangyflogedig, efallai y byddwn yn gofyn i chi am gopi o'ch ffurflenni treth, neu ohebiaeth gan Gyllid a Thollau EM i ddangos eich bod mewn gwaith rheolaidd cyflogedig.
11. Byddwn yn cyfrifo hyd unrhyw daliad, yn dechrau wedi i chi golli 28 wythnos o enillion hyd at ba bynnag un sydd gynharaf o:
 - y diwrnod pan nad ydych bellach yn gallu cyflawni unrhyw waith cyflogedig;
 - y diwrnod pan fyddwch yn cyrraedd oed pensiwn y wladwriaeth; a
 - diwedd oes disgwyledig lle mae'r anaf wedi byrhau'r cyfnod hwnnw.
12. Gwneir taliadau colli enillion ar gyfradd sefydlog fesul wythnos o golled. Bydd y gyfradd sefydlog a ddefnyddir y gyfradd tâl salwch statudol mewn grym ar ddyddiad penderfynu ar eich cais.

Costau arbennig

13. Mae'r Cynllun yn ein caniatáu i ystyried ceisiadau am gostau penodol a gyfeirir atynt fel 'costau arbennig' allai fod wedi codi i chi o ganlyniad i'ch anaf.
14. Gallwch ofyn i ni ystyried cais am gostau arbennig os yw'ch anafiadau yn golygu nad ydych wedi gallu gweithio, neu'ch bod wedi bod yn analluog i raddau tebyg am fwy na 28 wythnos. fodd bynnag, byddwn

yn talu'r costau arbennig o ddyddiad yr anaf ei hun. Mae hyn yn wahanol i'r rheol colli enillion, lle gallwn dalu o wythnos 29 yn unig.

15. Er mwyn bod yn gymwys am daliad costau arbennig, rhaid i chi allu profi nad yw'r nwyddau neu wasanaethau, neu rywbeth tebyg, ar gael yn rhad ac am ddim gan ffynhonnell arall. Rhaid i'r gwariant fod yn:

- angenrheidiol;
- yn deillio'n uniongyrchol o anaf troseddol; ac
- yn rhesymol.

16. Gallech hawlio am ddifrod i eiddo neu offer yn perthyn i chi yr oeddech yn ddibynnol arno fel cynhorthwy corfforol ac a gafodd ei ddifrodi yn y digwyddiad. Byddai enghreifftiau yn cynnwys ffyn cerdded, sbectolau a dannedd gosod. Byddwn yn gofyn i chi am dderbynebaw ar gyfer y rhain.

17. Gallech hefyd allu hawlio am gostau fel presgripsiynau GIG, a thaliadau deintyddion ac optegwyr. Efallai y byddwn yn ystyried talu'r costau hyn os ydych wedi gorfod eu talu eich hun yn unig. Eto, byddwn angen prawf o hyn. Efallai y byddwch yn gallu cael cymorth am rai o'r costau hyn gan y GIG. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn gan:

Health Benefits Division
Sandyford House
Archbold Terrace
Newcastle-upon-Tyne
Tyne and Wear
NE2 1DB
Ffôn: 0191 203 5555.

18. Os ydych chi angen offer arbennig; er enghraifft cynhorthwy corfforol (yn cynnwys cerbydau wedi eu haddasu, cadeiriau olwyn a chynorthwyon cerdded ac offer cegin i helpu pobl y mae eu gfael

wedi gwanhau), efallai y byddwch yn gallu hawlio. Os ydych wedi prynu'r rhain, byddwn yn gofyn i chi am dderbynebau neu amcan bris.

19. Gallwn dalu am addasiadau i'ch cartref, allai gynnwys newidiadau tu fewn a thu allan i'ch cartref (fel ramp neu gadair esgyn) i wella'ch annibyniaeth neu'ch gallu i symud o gwmpas.
20. Efallai y byddwn yn talu cost gofal yn ymwneud â'ch gweithrediadau corfforol, neu i baratoi prydau a goruchwyllo (i osgoi risg sylweddol i chi ac eraill).
21. Efallai y byddwn yn talu costau penodi rhywun i weinyddu materion ymgeisydd ag analluedd meddyliol, a chostau gweinyddiad parhaus y materion hynny.
22. Efallai y byddwn yn talu cost sefydlu ymddiriedolaeth lle rydym wedi cyfarwyddo hyn dan baragraff 106 y Cynllun, ond nid unrhyw gostau yn ymwneud â gweinyddu hynny.
23. Gan mai dim ond os nad yw'r GIG neu'ch awdurdod lleol yn gallu eu talu y byddwn ni'n talu am y costau hyn, byddwn angen copi o adroddiad gofal eich awdurdod lleol yn dangos beth fyddant yn ei ddarparu a beth fydd ei angen yn ychwanegol, os o gwbl.
24. Rhaid i ni osgoi unrhyw daliad dwbl. Felly rhaid i ni leihau unrhyw daliad am gostau arbennig i dalu sylw i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a dderbyniwch neu y gallech dderbyn i fodloni'r un costau. Os yw'r budd-dal ar gael i chi, rhaid i ni ei ystyried, p'un a ydych yn dewis ei hawlio neu beidio. Dywed y cynllun od gallech dderbyn unrhyw nawdd cymdeithasol neu fudd-daliadau eraill y wladwriaeth, gallwn oedi penderfynu nes eich bod wedi gweithredu i'w hawlio.

25. Mae'r rheolau ar leihau taliadau i ystyried taliadau yswiriant yn fwy cymhleth. Ar gyfer colli enillion byddwn yn lleihau'r dyfarniad os ydych wedi derbyn arian am yr un golled gan bolisi yswiriant y mae rhywun arall wedi talu amdano neu gyfrannu tuag ato, ond nid os ydych wedi talu amdano eich hun.
26. Ble dyfarnir costau arbennig byddwn yn lleihau eich taliad i ystyried yr yswiriant a dalwyd, pwy bynnag a dalodd y premiwm, os ydych yn hawlio am bethau fel addasiadau i'ch cartref neu ofal personol.

Taliadau profedigaeth

27. Os ydych yn berthynas cymwys (fel yr esbonnir yn Adran 2) ac nad oeddech wedi ysgaru neu ddieithrio o'r ymadawedig ar adeg marwolaeth, efallai y byddwch yn gymwys am daliad profedigaeth o:
- swm sefydlog o £11,000 os mai chi yw'r unig berthynas cymwys; neu
 - swm sefydlog o £5,500 i bob unigolyn sy'n gymwys am daliad.

Taliadau plentyn

28. Gallwch wneud cais am daliad plentyn os yw'r plentyn yn berthynas cymwys oedd dan 18 oed ar adeg y farwolaeth ac yn ddibynnol ar yr ymadawedig am wasanaethau rhieniol. Mae hyn yn swm o arian i ddarparu cydnabyddiaeth fechan o beth mae plentyn golli o ganlyniad i farwolaeth rhiant, fel:
- cariad ac anwyldeb;
 - gofal a goruchwyliaeth;
 - cludiant o ac i glybiau a gweithgareddau; a
 - triniaeth arbennig.
29. Mae'r hawl y mae taliad plentyn yn gysylltiedig ag o yn dechrau ar ddyddiad y farwolaeth ac yn gorffen ar y dyddiad cyn pen-blwydd 18 oed y plentyn. Mae taliad y plentyn yn £2,000 ar gyfer pob blwyddyn lawn, wedi ei leihau yn gymesur am rannau o flynyddoedd. Rydym yn cyfrifo hyn fel cyfandaliad.
30. Efallai y byddwn hefyd yn gallu talu swm atodol am gostau o'r fath a ddiodefir **gan y plentyn** o ganlyniad uniongyrchol i golli

gwasanaethau rhieniol y mae'r swyddog ceisiadau yn ystyried i fod yn rhesymol.

Taliadau dibyniaeth

31. Gallwch hawlio am daliad dibyniaeth os ydych yn berthynas cymwys oedd yn ariannol neu'n gorfforol ddibynnol ar yr ymadawedig ar adeg eu marwolaeth.

Dibyniaeth ariannol

32. I fod yn gymwys, ar adeg marwolaeth yr ymadawedig rhaid bod y dioddefwr wedi bod naill ai:

- mewn gwaith cyflogedig;
- heb waith cyflogedig, ond wedi bod mewn gwaith cyflogedig yn rheolaidd yn y tair blynedd cyn dyddiad y farwolaeth; neu
- ddim mewn gwaith cyflogedig ond gyda rhesymau da dros beidio bod. Er enghraifft, nid oeddynt yn gallu gweithio am eu bod mewn addysg llawn amser, neu oherwydd eu hoedran neu gyfrifoldebau gofal.

33. Ni fyddwn yn gwneud taliad dibyniaeth ariannol os oedd yr ymadawedig yn ddibynnol ar daliadau nawdd cymdeithasol fel prif incwm

34. Cyfrifir y taliad dros gyfnod y ddibyniaeth ar y gyfradd wythnosol o dâl salwch statudol ar ddyddiad y penderfyniad.

35. Mae cyfnod cymwys y taliad yn dechrau ar ddyddiad y farwolaeth, ac yn dod i ben ar ba bynnag un yw'r cynharaf o:

- yn achos perthynas cymwys sy'n blentyn dan 18 oed, y dyddiad cyn eu pen-blwydd yn 18 oed;
- y dyddiad pan fyddai'r ymadawedig wedi cyrraedd oed pensiwn y wladwriaeth;
- y dyddiad pan, cyn y digwyddiad a ysgogodd eu hanaf troseddol, yr oedd disgwyl i fywyd yr ymadawedig ddod i ben yn unol â thabl C Atodiad F y Cynllun neu unrhyw dystiolaeth feddygol arall sydd ar gael;
- diwedd disgwylidig bywyd y perthynas cymwys; neu
- hanner can mlwyddiant y dyddiad pan fu farw'r ymadawedig.

36. Os oes mwy nag un perthynas cymwys yn gymwys am daliad dibyniaeth ariannol, bydd y swm wythnosol yn cael ei rannu mewn

cyfrannau cyfartal rhwng yr hawlwyrs sy'n gymwys yn ystod yr wythnos honno. Wrth i'r nifer o berthnasau cymwys leihau (er enghraifft, pan fydd plentyn yn 18 oed), bydd yr hawlwyrs sy'n weddill yn gymwys am gyfran gynyddol o'r taliad.

37. Bydd y taliad dibyniaeth yn un cyfandaliad.

Dibyniaeth gorfforol

38. Os ydych yn berthynas cymwys ac roedd yr ymadawedig yn brif ofalwr i chi, efallai y byddwch yn gymwys am daliad dibyniaeth corfforol. Rydym yn diffinio prif ofalwr fel yr un oedd yn bodloni'r rhan fwyaf o anghenion gofal ymgeisydd. Dechreuwa'r cyfnod o golled pan allwn ddarparu taliad o'r dyddiad pan fu farw'r dioddefwr.

39. Byddwn yn ystyried cais am ddibyniaeth gorfforol yn yr un modd ag y byddem yn ystyried cais am ddibyniaeth ariannol; hynny yw, byddai angen bodloni'r amodau a amlinellir ym mharagraffau 31-34.

40. Mae dibyniaeth gorfforol yn cynnwys y canlynol:

- cymorth gyda hylendid personol (mynd i'r toiled/ymolchi);
- rheoli ymataliad;
- paratoi a bwyta bwyd;
- meddyginiaeth a thriniaethau syml; neu
- goruchwyliaeth o'r ymgeisydd pan fydd hyn yn angenrheidiol ac yn digwydd yn weithredol trwy gydol y dydd.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn marw o'r anafiadau yn hwyrach?

41. Efallai y byddwn yn gallu gwneud taliad wedi marwolaeth dioddefwr hyd yn oed os cawsant daliad am eu hanaf cyn iddynt farw. Os yw'r dioddefwr wedi marw oherwydd ei hanaf, gallai perthnasau cymwys fod yn gymwys i hawlio. Bydd y taliad i'r dioddefwr yn effeithio ar y taliad i berthnasau fel a ganlyn:

- os mai dim ond **un person sy'n gymwys** am daliad dibyniaeth neu blentyn, byddwn yn tynnu'r swm sydd eisoes wedi ei dalu i'r ymadawedig o hyn;
- os oes **mw nag un person sy'n gymwys** am daliad dibyniaeth neu blentyn, byddwn yn tynnu'r swm sydd eisoes wedi ei dalu i'r ymadawedig o hyn wedi ei rannu'n gyfartal rhwng pob derbynydd. Er enghraifft, os yw'r ymadawedig wedi derbyn £3,000 cyn marw, a bod tri derbynydd cymwys yn hawlio, bydd cyfanswm y taliad wedi ei leihau o £1,000 yr un.

42. Os byddwch yn gwneud cais am daliad lle mae'r dioddefwr eisoes wedi derbyn taliad cyn marw, a'i bod yn fwy na dwy flynedd ers i ni setlo'r achos, dim ond os na fydd angen ymholiadau helaeth fyddwn yn delio â'ch cais. Golyga hyn y byddai angen cael ychydig iawn o amheuaeth neu ddim amheuaeth o gwbl fod y farwolaeth o ganlyniad uniongyrchol i'r anaf troseddol.

Ble mae'r dioddefydd yn marw o achos digysylltiad cyn y gwneir taliad iddynt

43. Gallai perthynas cymwys i rywun sydd wedi dioddef anaf troseddol ond a fu farw heb fod o ganlyniad uniongyrchol i'r anaf hwnnw fod yn gymwys am daliad os ar y dyddiad pan fu farw'r ymadawedig:

- fod yr ymadawedig yn gymwys am daliad costau arbennig ond nad oedd wedi ei dderbyn; a
- fod y sawl sy'n hawlio yn ddibynnol ar yr ymadawedig yn ariannol.

44. Mae'r taliad y mae gan y perthynas cymwys hawl iddo yn gyfyngedig i:

- unrhyw goll enillion y gallai'r ymadawedig fod wedi gallu hawlio cyn dyddiad y farwolaeth;
- unrhyw gostau arbennig (a ganiateir fan y Cynllun) a gododd i'r ymadawedig cyn dyddiad y farwolaeth.

45. I osgoi unrhyw amheuaeth, ni wneir taliad i unrhyw berthnasau sy'n goroesi am elfen anaf personol hawliad.

Coll yn y dyfodol, costau arbennig a thaliadau dibyniaeth fel cyfandaliad

46. Byddwn yn gwneud taliad mewn un cyfandaliad, felly mae angen i ni drosi'r rhan o'ch taliad sy'n ymwneud â choll yn y dyfodol i un swm taliad sengl y gallwn ei dalu nawr. Gwnawn hyn trwy gyfrifo gwerth llawn y taliad ac yna ei leihau i adlewyrchu'r ffaith ein bod yn ei dalu o flaen llaw.

47. Mae'r Cynllun yn sefydlu'r 'lluosogydd' y byddwn yn defnyddio i drosi cyfanswm gwerth eich taliad i werth presennol.

48. Mae maint y lluosogydd yn ddibynnol ar hyn eich hawl. Er enghraifft, wrth asesu colled enillion yn y dyfodol, mae hyn yn seiliedig ar y

cyfnod pan na allwch weithio yn y dyfodol - yr hwyaf yw'r cyfnod hwnnw, yr uchaf yw'r lluosogydd.

Taliadau angladd

49. Pan fydd rhywun wedi marw o ganlyniad i anaf troseddol, gallwn wneud taliad angladd ar gyfer costau angladd.
50. Gellir gwneud taliad cyfradd sylfaenol o £2,500 cyn gynted ag y byddwn wedi sefydlu cymhwyster sylfaenol. Bwriedir i hyn dalu costau angladd sylfaenol.
51. Gallai taliad pellach o hyd at £2,500 fod yn daladwy lle mae'r amgylchiadau penodol yn golygu na fydd y gyfradd sylfaenol yn talu am gost angladd sylfaenol. Ni all cyfanswm taliad angladd fod yn fwy na £5,000.
52. Dim ond lle darperir derbynebaw ar gyfer y gost gyfan a lle mae'r costau hynny yn rhesymol y telir ceisiadau am gostau dros y lwfans sylfaenol o £2,500.
53. Gallai costau angladd cynnwys eitemau fel:
 - darparu angladd;
 - carreg fedd;
 - blodau;
 - cyhoeddiadau papur newydd;
 - gwleddoedd galar / lluniaeth di-alcohol;
 - cofebion;
 - cludo'r ymadawedig yn ôl i'w gwlad wreiddiol.
54. Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysol. Ble ceir rhesymau da, byddwn yn ystyried costau eraill os y'i cefnogir gan dderbynebaw.

ADRAN 5 – Atal neu leihau dyfarniad

Adrodd

1. Os nad yw'r drosedd yr ydych yn ceisio iawndal amdani wedi ei hadrodd i'r heddlu, ni allwn wneud taliad.
2. Rydym yn disgwyl i chi, neu rywun arall, adrodd ar y drosedd a arweiniodd at eich anafiadau ar unwaith. Mae hyn er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r heddlu ddod â'ch ymosodwr i gyfiawnder. Rydym yn debygol o wrthod eich cais os nad ydych yn adrodd ar y digwyddiad i'r heddlu cyn gynted ag sy'n ymarferol resymol. Wrth benderfynu a oedd yn ymarferol resymol, byddwn yn ystyried:
 - a oeddech yn rhy ifanc i adrodd ar y digwyddiad eich hun;
 - a oedd gennych y gallu meddyliol i adrodd ar y digwyddiad;
 - oedd effaith eich anafiadau yn golygu na allech wneud adroddiad llawn i'r heddlu ar unwaith.

Cydweithrediad gyda'r heddlu a'r System Gyfiawnder Droseddol

3. Nid yw'n angenrheidiol i'r sawl a'ch anafodd i gael ei adnabod, na'i euogfarnu, er mwyn i chi gael taliad. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i chi fod wedi gwneud popeth posibl i helpu'r heddlu i ddal eich ymosodwr, a dod â nhw i gyfiawnder.
4. Er y gallech fod yn gyndyn i gyhuddo (er enghraifft, os oes gennych ofn ymosodiad arall neu ddial), mae'r Cynllun wedi ei ariannu yn gyhoeddus ac ni fyddwch yn gymwys am daliad oni bai'ch bod yn cydweithredu'n llawn gyda'r ymchwiliad i'r drosedd ac unrhyw erlyniad sy'n dilyn.

Cydweithrediad gyda ni neu gorff arall

5. Chi sy'n gyfrifol am roi unrhyw gymorth rhesymol i ni neu unigolyn neu gorff arall o ran eich hawliad. Gallwn wrthod neu leihau eich hawliad os:
 - nad ydych yn ein diweddarau am newid cyfeiriad neu amgylchiadau;
 - eich bod yn methu ymateb yn gyson a heb esgus rhesymol i ohebiaeth gennym a anfonwyd at eich cyfeiriad hysbys diwethaf;
 - nad ydych yn rhoi gwybod i ni am rywbeth allai effeithio ar eich hawliad;

- eich bod yn rhoi manylion anwir neu'n gor-ddweud ynglŷn â'ch anafiadau; neu
- nad ydych yn mynychu archwiliad meddygol sy'n gadael i ni wirio eich anafiadau.

Ymddygiad

6. Bwriedir i'r Cynllun dalu iawndal i ddioddefwyr di-fai troseddau treisgar. Cyn gwneud taliad, rhaid i ni ystyried a wnaeth eich ymddygiad cyn, yn ystod neu wedi'r digwyddiad achosi neu gyfrannu at y digwyddiad lle cawsoch eich anafu.
7. Byddwn yn edrych ar fanylion o cyn y digwyddiad, megis:
 - a oeddech yn ymddwyn mewn modd ymosodol neu fygythiol ac yn pryfocio'r digwyddiad lle cawsoch eich anafu;
 - a oeddech yn bwriadu pryfocio ymosodiad neu frwydr;
 - a oedd yna hanes o ymosodiadau neu ymladd rhyngoch chi a'r sawl a'ch anafodd; neu
 - a gawsoch eich anafu o ganlyniad i herio rhywun am ddigwyddiad blaenorol.
8. Byddwn yn edrych ar fanylion o'r digwyddiad cyfan, megis a gymroch ran mewn brwydr o'ch gwirfodd.
9. Byddwn yn ystyried eich ymddygiad ac yn edrych ar fanylion wedi i'r digwyddiad ddigwydd, megis a geisioch ddial ar eich ymosodwr.

Defnydd eithafol o alcohol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon

10. Ni fyddwn yn derbyn defnydd o alcohol neu gyffuriau fel esgus os buoch yn ymddwyn yn ymosodol neu os ysgogoch ddigwyddiad, waeth beth yw'r canlyniadau.
11. Ni fyddwn yn lleihau nac atal taliad dim ond oherwydd i'ch defnydd o alcohol neu gyffuriau eich gwneud yn fwy agored i ymosodiad. Golyga hyn y bydd ymgeiswyr yr ymosodwyd arnynt yn rhywiol tra'u bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn dal yn gymwys i wneud cais.

Cofnod troseddol

12. Byddwn yn ystyried unrhyw euogfarnau troseddol heb ddarfod sydd gennych ar ddyddiad eich cais ac unrhyw rai eraill a dderbyniwch cyn gwneud penderfyniad terfynol yn eich achos.

13. Ni fyddwn yn gwneud taliad os oes gennych euogfarn heb ddarfod a ddenodd dedfryd o garchar neu gymunedol.
14. Oni bai fod yna amgylchiadau arbennig, byddwn yn lleihau taliad lle fo euogfarn yn denu dedfryd heblaw dedfryd o garchar neu gymunedol.
15. Eglura Atodiad 2 sut fyddwn fel arfer yn penderfynu pa effaith fydd eich cofnod troseddol yn ei gael ar eich taliad.
16. Byddwn yn anwybyddu unrhyw euogfarnau y gellir eu hystyried i fod wedi darfod dan y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974.

Cymeriad

17. Byddwn yn ystyried unrhyw dystiolaeth sydd ar gael am eich cymeriad, ac eithrio parthed euogfarnau heb ddarfod, sy'n ei gwneud yn amhriodol i ni wneud taliad llawn neu ostyngol. Y mathau o dystiolaeth y gallwn ei hystyried yw:
 - ymwneud neu gyswllt â chyffuriau anghyfreithlon neu drosedd;
 - osgoi treth neu dwyll budd-daliadau;
 - gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol; neu
 - unrhyw rybuddion neu gerydd syml.

Ymddygiad a chymeriad dioddefwyr ymadawedig

18. Os arweiniodd neu y cyfrannodd ymddygiad yr ymadawedig at y digwyddiad lle cafodd ei anafu neu ei hanafu'n angheuol, ni fyddwn fel arfer yn gwneud taliad. Wrth ystyried a ddylem leihau neu atal taliad oherwydd ymddygiad, byddwn yn defnyddio'r un profion ag y byddem ar gyfer hawliad anaf personol (gweler paragraffau 6-9 uchod).
19. Fel y nodwyd yn Adran 2, ni fyddwn fel arfer yn ystyried euogfarnau troseddol yr ymadawedig. Fodd bynnag, byddwn yn gwrthod gwneud taliad lle mae cymeriad yr ymadawedig yn golygu na fyddai'n ddefnydd priodol o gronfeydd cyhoeddus.

ADRAN 6 – Penderfyniadau a gweinyddu taliadau

Derbyn taliad

1. Pan fyddwn wedi gwneud penderfyniad, byddwn yn ysgrifennu atoch neu'ch cynrychiolydd i roi gwybod i chi pa benderfyniad a wnaed.
2. Os byddwch yn derbyn ein penderfyniad, rhaid i chi neu'ch cynrychiolydd gwblhau a dychwelyd y ffurflen dderbyn o fewn 56 niwrnod i'w danfon at y cyfeiriad cysylltu sydd gennym ar eich ffeil.
3. Os nad ydych yn anfon eich derbyniad yn ôl atom o fewn 56 niwrnod, ac nad ydych wedi gofyn am adolygiad ysgrifenedig, ni fyddwn yn gwneud y taliad.
4. Efallai y byddwn yn ymestyn y terfyn amser 56 niwrnod y cyfeiriwyd ato uchod os oes amgylchiadau arbennig sy'n golygu na fydddech wedi gallu cydymffurfio â'r terfyn amser.
5. Gallwch wneud cais am yr estyniad hwn hyd yn oed os yw'r 56 niwrnod cyntaf wedi mynd heibio. Dim ond un estyniad allwn ni roi i chi, a fydd yn uchafswm o 56 niwrnod arall.
6. Os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad, gallwch ofyn iddo gael ei adolygu gan swyddog hawlio arall. Byddwn yn anfon ffurflen adolygu atoch pan fyddwn y cyhoeddi'r penderfyniad gwreiddiol. Gweler 'Adolygu ein penderfyniad' (Adran 7) ym mharagraffau 3-5.

Sut fyddwn yn gwneud taliad

7. Ble bynnag fo'n bosibl, byddwn yn setlo ceisiadau trwy gynnig taliad cyfandaliad unigol. Fodd bynnag, dim ond os yw'ch cyflwr meddygol a cholledion ariannol wedi eu sefydlu allwn ni wneud hyn.
8. Dywed y Cynllun y gallwn wneud trefniadau penodol ynglŷn â'r taliad neu ad-dalu gwobrau. Esbonnir hyn ymhellach isod.

Taliadau i oedolion sy'n rheoli eu materion ariannol eu hunain

9. Dim ond cyfarwyddyd i wneud taliad i chi, neu'ch cyfreithiwr, fyddwn yn ei dderbyn. Bydd yn cael ei dalu yn syth i'ch cyfrif banc /cymdeithas adeiladu chi neu'ch cyfreithiwr.
10. Os nad oes gennych gyfrif, efallai yr hoffech gysylltu â'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth neu Undeb Credyd lleol am gyngor.

Taliadau dros dro

11. Ble byddwn wedi penderfynu eich bod yn gymwys i gael dyfarniad, ond na allwn wneud penderfyniad terfynol, yna efallai y byddwn yn ystyried gwneud taliad dros dro. Os na allwch wneud penderfyniad terfynol, mae hyn yn debygol o fod oherwydd ein bod yn aros am ragor o wybodaeth neu am nad yw'ch cyflwr meddygol wedi setlo i lawr eto.

Ymddiriedolaethau

12. Gallem gyfeirio y dylid sefydlu ymddiriedolaeth lle rydym:

- wedi nodi nad ydych yn gymwys i reoli'ch cyllid eich hun, ac nad oes ymddiriedolaeth ar gael yn bresennol;
- yn credu y bydd hyn yn atal ymosodwr rhag elwa o'r taliad; neu
- yn credu na fyddai'n fuddiol i chi pe byddem yn gwneud taliad fel cyfandaliad.

13. Mae ymddiriedolaeth yn grynfa a reolir gan unigolyn neu grŵp o bobl (ymddiriedolwyr) ar eich rhan. Chi yw buddiolwr yr ymddiriedolaeth honno. Bydd yr arian yn cael ei dalu i mewn i'ch cronfa ymddiriedolaeth pan fydd wedi ei sefydlu.

14. Os yw gwerth y taliad yn sylweddol, efallai y byddwn yn ystyried gosod amodau ar yr ymddiriedolaeth a fydd yn caniatáu i unrhyw ran heb ei ddefnyddio o'r taliad i gael ei ad-dalu os nad ydych ei angen bellach.

15. Os byddwn yn cyfarwyddo sefydlu ymddiriedolaeth, ac nad ydych wedi cyrraedd uchafswm lefel y taliad, efallai y byddwn yn gallu talu'r costau sefydlu. Ni allwn dalu unrhyw gostau os byddwch yn penderfynu sefydlu ymddiriedolaeth lle nad ydym wedi cyfarwyddo fod hynny'n angenrheidiol. Ni fyddwn fel arfer yn ystyried talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweinyddu eich materion personol. Yr unig eithriad i hyn yw lle nad oes gennych y gallu i reoli'ch materion eich hun oherwydd yr anafiadau a gawsoch yn y digwyddiad a arweiniodd ar y cais.

Blwydd-daliadau

16. Math o bolisi yswiriant yw blwydd-dal sy'n rhoi incwm rheolaidd mewn cyfnewid am gyfandaliad. Mae'r Cynllun yn ein caniatáu i ystyried defnyddio blwydd-dal os nad ydym yn credu y byddai'n fuddiol i wneud un cyfandaliad i chi. Pe byddai'n well gennych dderbyn eich taliad fel blwydd-dal, trafodwch hyn gyda ni.

17. Ni fyddwn yn talu costau, os oes rhai, prynu neu weinyddu blwydd-dal.

Penodi dirprwy neu warchodwr

18. Ble diffinnir oedolyn cyfreithiol fel rhywun sy'n methu rheoli eu materion personol eu hunain, byddwn fel arfer yn gwneud taliad i'r unigolyn sydd â'r awdurdod cyfreithiol, fel arfer yn ddirprwy neu warchodwr, i reoli eu cyllid. Mewn rhai achosion gallwn dalu i gronfa ymddiriedolaeth yn lle hyn.
19. Mae dirprwy yn rhywun a benodir gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau i rywun nad yw'n gallu gwneud hyn ei hun. Bydd y Llys Gwarchod yn penderfynu pwy all fod yn ddirprwy.
20. Mae gwarchodwr cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig yn rhywun sydd â'r awdurdod cyfreithiol a dyletswydd gyfatebol i ofalu am fuddiannau personol ac eiddo rhywun arall.

Os ydych dan 18 oed pan wneir y taliad

21. Os ydych dan 18 oed pan fyddwch yn derbyn taliad, byddwn fel arfer yn rhoi'ch arian mewn cyfrif adneuo i ennill llog yn eich enw chi. Bydd y taliad yn cael ei dalu i chi (ynghyd â'r holl log a enillir) pan fyddwch yn 18 oed.
22. Byddwn yn ystyried cais gan eich rhiant neu warchodwr i wneud eich taliad i Gronfa Ymddiriedolaeth Plentyn, ISA lau neu fath arall o gyfrif, lle mae gwerth llawn y taliad wedi ei ddiogelu nes eich bod yn 18 oed. Os ydym yn cytuno, mae'n bosibl talu cyfanswm eich taliad i gyfrif o'r fath cyn i chi droi'n 18 oed, yna gallai hyn fod yn ddewis amgen i ni'n dal ein gafael ar eich cronfa. Nid ydym yn talu am unrhyw gostau atodol os yw'ch rhiant neu warchodwr yn dewis un o'r opsiynau hyn.
23. Os ydym yn dal y taliad i chi, byddwn yn caniatáu talu symiau os oes eu hangen ar gyfer eich budd, addysg neu les chi yn unig. Os byddwch yn gwneud taliad, byddwn angen tystiolaeth – fel arfer derbynneb – yn profi y'i defnyddiwyd i'r dibenion arfaethedig. Os nad ydym yn cael y dystiolaeth hon, ni fyddwn yn caniatáu unrhyw daliadau pellach. Efallai y byddwn yn ystyried gwneud taliad llawn os ydych yn 16 neu 17 oed ac yn byw'n annibynnol.
24. Os byddwn yn derbyn tystiolaeth i ddangos na fyddai er eich lles chi i gael y taliad fel cyfandaliad pan fyddwch yn 18 oed, efallai y byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i ddefnyddio blwydd-dal neu ymddiriedolaeth ar yr adeg honno.

25. Byddwn yn rhoi esboniad llawn o sut ydym yn rheoli taliadau ar gyfer pobl ifanc pan fyddwn yn gwneud ein cynnig taliad.
26. Dywed y gyfraith mai rhieni plentyn dan 18 oed yw gwarcheidwaid cyfreithiol y plentyn hwnnw, ac y gallant bennu pwy fydd gwarchodwr cyfreithiol y plentyn os byddant yn marw.

Ad-dalu gwobrau

27. Gallwn ofyn am ad-daliad o ran neu'r cyfan o ddyfarniad wedi gwneud y taliad terfynol, os derbyniwn dystiolaeth i awgrymu unrhyw un o'r canlynol:
- na wnaethoch gydweithredu cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol i ddod â'r ymosodwr i gyfiawnder;
 - eich bod wedi'n camarwain yn fwriadol o ran agwedd bwysig o'ch hawliad;
 - i chi dderbyn taliad y mae'r Cynllun yn caniatáu i ni ei ystyried, ac na chafodd ei ddidynnu o'r taliad cyn ei dalu.
28. Byddwn yn ysgrifennu i roi gwybod i chi os byddwn angen ad-daliad o'r cyfan, neu ran, o ddyfarniad. Os nad ydych yn cytuno gyda'n penderfyniad i ailystyried eich dyfarniad neu'n gofyn am ad-daliad, bydd gennych 30 niwrnod o ddyddiad ein llythyr i ysgrifennu atom ac esbonio eich rheswm dros anghytuno.
29. Hyd at y pwynt y byddwn yn gwneud taliad terfynol, gallwn ailystyried ein penderfyniad ac ystyried tystiolaeth newydd neu newid mewn amgylchiadau. Os ydym yn ailystyried eich dyfarniad, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi beth ydym yn ei wneud a pham. Byddwn yn eich gwahodd i roi'ch barn ar beth ydym yn ailystyried.
30. Bydd ein penderfyniad terfynol ar ail ystyriaeth neu ad-daliad yn cael ei roi i chi trwy lythyr.

ADRAN 7 – Ailagor achosion, adolygu ein penderfyniadau a sut i apelio

Ailagor achos

1. Gallwn ystyried ailagor cais wedi gwneud taliad terfynol, neu os cawn ein cyfarwyddo i wneud hynny gan y Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (lawndal Anafiadau Troseddol). Gallwn wneud hyn os oes angen i ni wneud taliad atodol lle:
 - mae rhywun wedi derbyn taliad gennym yn flaenorol ac yna'n marw o ganlyniad i'r anaf a gafwyd ar adeg y digwyddiad gwreiddiol;
 - cafwyd cymaint o newid yn eich cyflwr meddygol fel y byddai'n anghyfiawn pe na fyddai'ch achos yn cael ei ailagor.
2. Ni fyddwn fel arfer yn ailagor achos oni bai ei fod o fewn dwy flynedd i'r penderfyniad terfynol. Os ydych yn gofyn i ni ailagor achos ar sail feddygol fwy na dwy flynedd wedi'n penderfyniad, dim ond lle gallwch roi digon o dystiolaeth i ni i wneud penderfyniad ar yr achos heb fod angen ymholiadau helaeth pellach fyddwn yn ystyried hyn.

Adolygu ein penderfyniad

3. Os ydych yn anghytuno gyda'r penderfyniad gwreiddiol neu ail ystyriaeth i'ch hawliad ac eisiau i ni ei adolygu, rhaid i chi anfon eich cais ysgrifenedig atom i'w adolygu o fewn 56 niwrnod i ddyddiad y penderfyniad gwreiddiol. Bydd angen i chi amgáu unrhyw dystiolaeth atodol yr hoffech i ni ystyried i gefnogi eich achos.
4. Os bydd yn cymryd mwy na 56 niwrnod i gasglu'r dystiolaeth fyddwch ei hangen i gefnogi'ch cais, dylech ysgrifennu atom yn gofyn i ymestyn y terfyn amser i 56 niwrnod arall. Gallwch ofyn am estyniad hyd yn eod wedi i'r 56 niwrnod cyntaf fynd heibio, ond dim ond os bu amgylchiadau eithriadol fyddai'n golygu na fyddech wedi gallu gofyn am estyniad yn gynharach fyddwn ni'n gwneud hyn.
5. Pan fyddwn yn cael eich cais am adolygiad ynghyd â'ch holl wybodaeth ategol, bydd swyddog ceisiadau gwahanol i'r un a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol yn ei ystyried. Gall penderfyniad yr adolygiad fod yn fwy neu lai ffafriol na'r penderfyniad gwreiddiol, neu gellir cadw'r penderfyniad gwreiddiol fel y mae. Mae'n bwysig eich bod yn deall er mai canlyniad posibl adolygiad yw y gallech gael taliad mwy, mae hefyd yn bosibl y byddwch yn cael taliad is neu ddim taliad o gwbl.

Apelio ar benderfyniad

6. Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad adolygiad, gallwch apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (lawndal Anafiadau Troseddol) yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Tribiwnlys. Gallwch ddod o hyd i'r rheolau hyn ar wefan Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn <http://www.justice.gov.uk/tribunals/criminal-injuries-compensation/rules-and-legislation> neu trwy ysgrifennu at Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (lawndal Anafiadau Troseddol) yn y cyfeiriad isod.
7. Pan fyddwn yn anfon penderfyniad ein hadolygiad atoch, byddwn yn anfon ffurflen i chi ddefnyddio i ofyn am apêl. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen yn esbonio pam eich bod yn meddwl fod ein penderfyniad yn anghywir. Dylech hefyd ddarparu unrhyw ddeunydd atodol sy'n cefnogi'ch rhesymau dros apêl. Dylech anfon y ffurflen a'r dystiolaeth at Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (nid atom ni) er mwyn iddynt ei chael o fewn 90 niwrnod i ddyddiad penderfyniad yr adolygiad. Gallwch ofyn i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf ymestyn y cyfnod hwn, ond rhaid i chi wneud hynny o fewn y 90 niwrnod. Cyfeiriad y Tribiwnlys yw:

First-tier Tribunal (Criminal Injuries Compensation)
Wellington House
134-136 Wellington Street
Glasgow
G2 2XL

8. Bydd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn esbonio ei weithdrefnau pan fydd yn derbyn eich cais am apêl. Os yw'ch apêl yn symud ymlaen i wrandawriad llafar, mae'n debygol y bydd cynrychiolydd o'r Awdurdod yn y gwrandawriad er mwyn esbonio ein penderfyniad. Bydd aelodau staff Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn gwbl annibynnol ohonom ac yn ystyried yr hawliad cyfan. Efallai y byddant yn gwneud penderfyniad sy'n fwy neu lai ffafriol na phenderfyniad yr adolygiad, neu gallai penderfyniad yr adolygiad fod heb ei newid. Mae penderfyniad Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn derfynol, oni bai y bydd Adolygiad Barnwrol yn canfod ei bod wedi cyflawni gwall yn y gyfraith.

ADRAN 8 – Gwasanaeth cwsmer

1. Ein nod yw darparu gwasanaeth effeithiol a theg i ddioddefwyr di-fai troseddau treisgar.
2. Mae ein Siarter Cwsmeriaid yn rhoi manylion ein nodau wrth gyflawni'n gwasanaeth, a'n disgwyliadau ohonoch chi.

Beth ydym yn ofyn gennych chi

3. Gallwch ein helpu i roi'r gwasanaeth yr ydych chi, ac eraill, yn disgwyl trwy:
 - roi gwybodaeth a thystiolaeth gywir i gefnogi eich cais, a'n helpu i gasglu dystiolaeth (rydym yn ddibynnol ar eraill am ein gwybodaeth, ac fe all hyn gymryd amser);
 - roi gwybod i ni ar unwaith os yw'ch manylion cyswllt yn newid;
 - ganiatáu dau ddiwrnod gwaith i ni ddychwelyd eich galwad os ydych angen siarad ag unigolyn neu dîm penodol; ac
 - drin ein staff yn gwrtais.

Ein hymroddiad i chi

4. Fe ddywedoch wrthym beth oedd bwysicaf i chi o ran cyflawni gwasanaeth da, felly byddwn yn:
 - penderfynu ar 80 y cant o achosion o fewn 12 mis¹;
 - eich hysbysu o statws eich cais wedi 12 mis o dderbyn eich cais os na allwch eich darparu â phenderfyniad cyn hynny;
 - ateb galwadau ffôn o fewn dau funud ar gyfartaledd;
 - dychwelyd galwadau ffôn o fewn dau ddiwrnod gwaith os ydych eisiau siarad ag unigolyn neu dîm penodol;
 - eich trin yn gwrtais;
 - cadw ein gohebiaeth ysgrifenedig yn glir a hawdd i'w ddeall;

¹ Mae achosion sy'n debygol o fod yn rhan o'r 20 y cant ble na allwn benderfynu mewn blwyddyn y rhai ble mae gan anaf adferiad ansicr, fel anaf i'r ymennydd neu ble mae'r meddygon sy'n eich trin yn ansicr beth allai'r difrod hirdymor fod, neu achosion ble mae'ch anaf wedi effeithio ar eich gallu hirdymor i weithio. Ble byddwch yn gofyn i ni edrych ar yr achos eto wedi i ni benderfynu arno, bydd hyn yn ychwanegu at yr amser a gymer.

- ei gwneud yn hawdd i chi achwyn os nad ydych yn fodlon ein bod yn bodloni'r safonau hyn; ac
 - mesur pa mor dda ydym yn perfformio ac yn cyhoeddi'r canlyniadau.
5. Byddwn hefyd yn esbonio ein penderfyniadau yn glir ac yn rhoi gwybod i chi pa opsiynau sydd gennych pan fyddwch yn eu derbyn, ond ni allwn dderbyn cwynion am benderfyniadau achos gan fod yna broses adolygu ac apelio y mae'n rhaid i ni ei dilyn os nad yw'r canlyniad yr hyn y gobeithioch y byddai.

Cwynion

6. Rhowch alwad i ni ar 0300 003 3601 os ydych eisiau gwneud cwyn. Rydym yn ceisio datrys pob cwyn cyn gynted â phosibl ac mae gallu siarad â chi o'r cychwyn yn cynorthwyo'r broses honno.
7. Mae'n llinellau ffôn ar agor o 08.30 hyd 17.00 ar Ddydd Llun i Ddydd Gwener, heblaw am Ddydd Mercher pan fyddwn ar agor o 10.00 hyd 17.00.

Arolwg cwsmeriaid

8. Efallai y byddwn yn gofyn i chi gwblhau arolygon ar wahanol gamau o'ch cais yn rhan o'n proses adborth. Does dim rhaid i chi wneud hyn, ond bydd yn ein helpu i wella'n gwasanaeth os byddwch.
9. Gallwn ofyn cwestiynau o'r fath i chi wedi i chi cwblhau'n proses ymgeisio dros y ffôn neu ar-lein, neu pan fyddwn yn ysgrifennu i roi gwybod i chi am ein penderfyniad. Mae'ch adborth yn bwysig iawn i ni.

Atodiad 1 - Rhagor o wybodaeth am gymhwyster ar gyfer unigolion sy'n breswylwyr a rhai nad ydynt yn breswylwyr

1. Er mwyn bod yn gymwys am daliad, rhaid i chi ddangos:

- eich bod fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig ar ddyddiad y digwyddiad;
- eich bod yn gysylltiedig i'r Deyrnas Unedig trwy rinwedd un o'r darpariaethau eraill a restrir ym mharagraff 4 ar ddyddiad y digwyddiad;
- eich bod wedi'ch nodi fel dioddefwr masnachu mewn pobl ar ddyddiad eich cais; neu
- y rhoddwyd amddiffyniad, lloches neu amddiffyniad dyngarol dros dro i chi ar ddyddiad eich cais.

Fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig

2. Byddai p'un a ydych fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig i ddibenion y Cynllun yn ddibynnol ar:

- pa mor aml ac am ba hyd ydych chi yn y Deyrnas Unedig;
- diben a phatrwm eich presenoldeb;
- eich cysylltiadau â'r Deyrnas Unedig. Byddai ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried ar y cyd i roi darlun cyflawn, a byddai'n cynnwys:
 - i. Cysylltiadau teuluol - cael cymar, partner sifil, plant neu aelodau agos eraill o'r teulu yn y Deyrnas Unedig.
 - ii. Clymau busnes - bod yn berchen ar neu'n gyfarwyddwr busnes wedi ei leoli yn y Deyrnas Unedig, neu gael gwaith, yn cynnwys hunangyflogaeth, yn y Deyrnas Unedig.
 - iii. Clymau eiddo - eiddo yr ydych yn berchen arno neu'n ei brydlesu a lle gallwch aros yn y Deyrnas Unedig.

3. Mae'n bosibl y byddwch wedi treulio rhywfaint o amser mewn gwlad arall, ond yn cynnal cysylltiadau cryf â'r Deyrnas Unedig, fel eich swydd neu dŷ, sy'n golygu eich bod yn parhau i fod fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig i ddibenion y Cynllun. Gallai hyn fod yn wir os oeddech ar wyliau, yn astudio dramor, neu'n ymweld â gwlad dramor am ryw reswm arall.

Dulliau eraill o fodloni'r meini prawf preswyllo neu genedligrwydd

4. I fod yn gymwys i wneud cais am daliad, rhaid i chi allu dangos eich bod:

- a. **Yn ddinesydd Prydeinig**, waeth lle ydych yn byw fel arfer;
- b. **Yn berthynas agos i ddinesydd Prydain neu'n aelod o luoedd arfog Ei Mawrhydi**. Diffinnir y term 'perthynas agos' fel:
- cymar neu bartner sifil y dinesydd neu aelod o'r luoedd arfog;
 - partner (ac eithrio cymar neu bartner sifil) y dinesydd neu aelod o'r luoedd arfog, wedi bod yn bartner iddynt am gyfnod parhaus o ddwy flynedd neu fwy yn syth cyn dyddiad y digwyddiad a achosodd yr anaf;
 - plentyn dan 18 oed y dinesydd neu aelod o'r luoedd arfog, neu eu cymar, partner sifil neu bartner;
 - plentyn y dinesydd neu aelod o'r luoedd arfog, ac yn ariannol neu'n gorfforol ddibynnol ar yr unigolyn hwnnw o ganlyniad i anabledd corfforol neu feddyliol;
 - 'perthynas agos sy'n cyd-deithio' gydag aelod o'r luoedd arfog, fel y diffinnir ym mharagraff 12 (2) y Cynllun, yw perthynas agos sy'n byw gyda nhw tu allan i'r Deyrnas Unedig.
- c. **Gwladolyn aelod wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd (UE) neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)**. Rhoddir rhestr o aelod wladwriaethau'r UE a'r AEE yn y tabl ar ddiwedd yr adran hon.
- d. **Rhywun sydd â'r hawl i fod yn y Deyrnas Unedig trwy rinwedd bod yn aelod o deulu gwladolyn o'r UE/AEE sydd yn y Deyrnas Unedig**. Trwy 'aelod o deulu', golygwn:
- cymar neu bartner sifil;
 - disgynyddion uniongyrchol i wladolyn yr UE neu AEE, neu ei gymar neu bartner sifil sydd naill ai dan 21 oed neu sy'n ddibynnol ar wladolyn yr UE neu AEE. Trwy ddisgynydd uniongyrchol, rydym yn golygu plant ac/neu wyrion neu wyresau;
 - rhiant neu nain neu daid i'r gwladolyn UE neu AEE (sy'n ddibynnol ar y gwladolyn UE neu AEE yn ariannol); neu riant neu nain neu daid neu gymar neu bartner y gwladolyn UE neu AEE;
 - os yw'r gwladolyn UE neu AEE yn fyfyrwr, dim ond eu cymar neu bartner sifil a phlant dibynnol fydd â'r hawl i breswyllo. Ni fydd gan unrhyw berthnasau eraill hawl preswyllo awtomatig.

- os ydych yn bartner dibriod i wladolyn UE neu AEE, efallai y byddwch yn gymwys am daliad os gallwch ddangos eich bod mewn perthynas barhaus gyda gwladolyn o'r UE neu AEE.

Ceir rhagor o wybodaeth ar 'aelodau teulu' AEE yn

www.ukba.homeoffice.gov.uk/eucitizens/eea-family-permit/

e. Aelod o'r lluoedd arfog neu berthynas agos sy'n cyd-deithio

Gallai pob aelod sy'n gwasanaethu tyn lluoedd arfog Ei Mawrhydi fod yn gymwys i ymgeisio.

'Perthynas agos sy'n cyd-deithio' gydag aelod o luoedd arfog Ei Mawrhydi, fel y diffinnir yn y Cynllun ym mharagraff 12(2), yw perthynas agos sy'n byw gyda'r aelod hwnnw neu honno o'r lluoedd arfog tu allan i'r Deyrnas Unedig.

f. Dioddefydd masnachu mewn pobl

Os ydych wedi'ch nodi i fod yn ddiodefydd masnachu mewn pobl, gallech hefyd fod yn gymwys i hawlio.

Rydych yn gyfrifol am roi tystiolaeth i ni i ddangos eich bod wedi'ch nodi'ch swyddogol fel diodefydd.

Os nad yw'ch statws wedi ei gadarnhau pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais, gallwch ofyn i ni aros cyn i ni wneud ein penderfyniad. Galwn hyn yn ohirio. Chi sy'n gyfrifol am ofyn i ni ohirio eich cais.

g. Ceisiwr lloches

Os ydych wedi gwneud cais am loches, yn unol â Deddf Mewnfudo 1971, gallech hefyd fod yn gymwys i wneud cais os:

- rhoddir amddiffyniad dros dro i chi;
- rhoddir lloches i chi; neu
- rhoddir amddiffyniad dyngarol dros dro i chi.

Os nad yw'ch statws wedi ei gadarnhau pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais, gallwch ofyn i ni ohirio ein penderfyniad. Chi sy'n gyfrifol am ofyn i gael gohirio eich cais.

h. Gwladolyn i Wladwriaeth sy'n rhan o Gonfensiwn Ewrop ar Ddigolledu Dioddefwyr Troseddau Treisgar (CETS Rhif 116,

1983). Ceir manylion y gwledydd sydd wedi cofrestru ar gyfer y confensiwn hwn ar wefan Swyddfa Cyfamod Cyngor Ewrop yn <http://conventions.coe.int/>

Aelod-wladwriaethau yr UE a'r AEE

Aelodau'r UE a'r AEE	
Awstria	Liechtenstein
Gwlad Belg	Lithwania
Bwlgaria	Lwcsembwrg
Cyprus	Malta
Y Weriniaeth Tsiec	Yr Iseldiroedd
Denmarc	Norwy
Estonia	Gwlad Pwyl
Y Ffindir	Portiwgal
Ffrainc	Rwmania
Yr Almaen	Slofacia
Gwlad Groeg	Sbaen
Hwngari	Sweden
Gwlad yr Iâ	Y Swistir
Iwerddon	
Yr Eidal	
Latfia	

Tystiolaeth

5. Gallwn ofyn i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn gymwys i wneud cais. Byddwn yn cysylltu â chi os byddwn angen copïau o'r wybodaeth hon. Esbonnir y mathau o dystiolaeth y gallwn ofyn amdanynt isod.

Preswyllo

6. Rhaid i ddogfennau yn profi eich bod fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig gael eich enw a chyfeiriad yn y Deyrnas Unedig arnynt. Os byddwn yn gofyn am dystiolaeth, rhaid i chi gyflenwi o leiaf un ddogfen o ddwy o'r tair rhestr isod. gallwn ofyn i chi am ddogfennau eraill os byddwn yn penderfynu ein bod angen mwy o dystiolaeth.

Rhestr A	Rhestr B	Rhestr C
Gohebiaeth pensiwn neu fudd-daliadau eraill gan yr Adran Gwaith a Phensiynau	Datganiadau banc neu gymdeithas adeiladu	Datganiadau rhent
Slipiau cyflog wedi eu cyfeirio gan eich cyflogwr	Datganiadau cardiau credyd	Bil y dreth gyngor neu lythyr talu
Cadarnhad gan eich gwaith, ysgol, coleg, prifysgol neu sefydliad gofal yn cadarnhau'ch enw, cyfeiriad a manylion eich statws cyflogaeth, myfyriwr neu breswyllo		Cytundeb tenantiaeth
		Datganiadau morgais
		Biliau gwasanaethau (nwy, trydan, dŵr)

Cenedligrwydd

7. I brofi eich cenedligrwydd, bydd angen i chi anfon copi o'ch pasbort presennol neu flaenorol (wedi darfod) atom. Os nad oes gennych basbort, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu dogfennaeth arall i gadarnhau eich bod wedi bodloni'r gofyniad cenedligrwydd ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd ar eich anaf. Gallai hyn gynnwys:

- llythyr gan awdurdodau'ch gwlad yn cadarnhau dinasyddiaeth;
- tystysgrif brodori neu gofrestriad; neu
- gerdyn adnabod cenedlaethol yn cadarnhau dinasyddiaeth.

Aelod sy'n gwasanaethu o lloedd arfog Ei Mawrhydi

8. Gallai tystiolaeth eich bod yn aelod sy'n gwasanaethu yn lloedd arfog Ei Mawrhydi gynnwys llythyr gan y gwasanaeth yn cadarnhau'ch statws, neu ddogfennaeth swyddogol sydd â chyfeiriad llety gwasanaeth ar eich cyfer. Gallai dogfennaeth i brofi eich bod yn gymar neu'n bartner sifil gynnwys tystysgrif briodas neu ddogfen partneriaeth sifil.
9. Gallai dogfennaeth i brofi eich bod yn berthynas agos sy'n cyd-deithio gydag aelod sy'n gwasanaethu yn lloedd arfog Ei Mawrhydi gynnwys:
 - gohebiaeth fel biliau gwasanaethau, datganiadau banc, neu slipiau cyflog wedi eu cyfeirio atoch yn yr un cyfeiriad ag aelod sy'n gwasanaethu yn lloedd arfog Ei Mawrhydi;
 - dogfennau teithio; neu
 - fisâu mynediad.

Atodiad 2 — Euogfarnau troseddol

Ystyried eich cofnod troseddol

1. Gallwn wrthod neu leihau taliad os oes gennych gofnod troseddol, er ei bod yn bosibl nad oedd bai arnoch chi yn y digwyddiad a arweiniodd ar eich anaf.
2. Dywed Atodiad D y Cynllun bod yn rhaid i ni ystyried eich **euogfarnau troseddol heb ddarfod ar ddyddiad y cais a chyn i ni wneud penderfyniad terfynol.**
3. Byddwn yn defnyddio'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 i bennu a yw euogfarn wedi darfod neu beidio. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r gosb a dderbyniodd y troseddol, a'r mwyaf diweddar y'i rhoddwyd, y mwyaf o amser fydd yn cymryd i euogfarn ddarfod. Ceir rhagor o fanylion ar [www.justice.gov.uk](http://www.justice.gov.uk/offenders/rehabilitation-of-offenders-act) dan 'Ailsefydlu troseddwyr', (<http://www.justice.gov.uk/offenders/rehabilitation-of-offenders-act>)
4. Ni fyddwn yn gwneud taliad i chi os oes gennych euogfarn heb ddarfod am drosedd a arweiniodd at:
 - a. dedfryd wedi ei heithrio o adferiad;
 - b. dedfryd o garchar;
 - c. dedfryd o garchariad gwasanaeth;
 - d. diswyddo o wasanaeth Ei Mawrhydi;
 - e. gorchymyn cymunedol;
 - f. gorchymyn adsefydlu ieuenctid; neu
 - g. Dedfryd yn cyfateb i ddedfryd yn is-baragraffau (a) i (f), a orchynnwyd gan gyfraith Gogledd Iwerddon neu aelod wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, neu ddedfryd a gyflwynwyd yn gywir mewn gwlad tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.
5. Yn Atodiad D: golyga 'gorchymyn cymunedol':
 - a. gorchymyn talu yn ôl cymunedol dan adran 227A y Ddeddf Gweithdrefn Gymunedol (Yr Alban) 1995;
 - b. gorchymyn cymunedol dan adran 177 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003;

- c. gorchymyn gwasanaeth cymunedol neu orchymyn cymunedol tramor dan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006; neu
- d. unrhyw orchymyn o fath sydd, ar ddyddiad creu'r Cynllun, wedi ei ddisodli (p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) gan orchymyn a grybwyllwyd yn is-baragraff (a), (b) neu (c);

6. Golyga 'dedfryd o garchar':

- a. dedfryd o garchariad;
- b. dedfryd o gadw mewn sefydliad troseddwr ifanc;
- c. dedfryd o hyfforddiant Borstal;
- d. dedfryd o warchodaeth ieuenctid;
- e. dedfryd o hyfforddiant cywirol;
- f. dedfryd o warchodaeth dan adran 205 neu 208 y Ddeddf Gweithdrefn Gymunedol (Yr Alban) 1995;
- g. dedfryd o warchodaeth dan adran 91 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 neu adran 209 Deddf y Lluoedd Arfog 2006;
- h. gorchymyn gwarchodaeth a hyfforddiant dan adran 100 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 neu orchymyn dan adran 211 Deddf y Lluoedd Arfog 2006; neu
- i. unrhyw ddedfryd o fath sydd, ar ddyddiad creu'r Cynllun hwn, wedi ei ddisodli (p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) gan ddedfryd a grybwyllwyd yn is-baragraff (f), (g) neu (h).

7. Golyga 'diswyddo o wasanaeth Ei Mawrhydi' ddedfryd o ddiswyddo gyda gwarth o wasanaeth Ei Mawrhydi, dedfryd o ddiswyddo o wasanaeth Ei Mawrhydi neu ddedfryd o ddiswyddo neu ryddhau gyda gwarth.

8. Mae 'dedfryd o garchariad' yn cynnwys dedfryd o wasanaeth penydol;

9. Mae 'dedfryd o garchariad gwasanaeth' yn golygu:

- a. dedfryd o warchodaeth gwasanaeth (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 374 Deddf y Lluoedd Arfog 2006), neu ddedfryd o warchodaeth yn cyfateb i ddedfryd o'r fath, parthed euogfarn mewn achos disgyblaeth gwasanaeth; neu

- b. unrhyw ddedfryd o fath sydd, ar ddyddiad creu'r Cynllun hwn, wedi ei ddisodli (p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) gan ddedfryd a grybwyllwyd yn is-baragraff (a);

10. Golyga 'gorchymyn adsefydlu ieuenctid':

- a. gorchymyn adsefydlu ieuenctid dan Ran 1 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; neu
- b. unrhyw orchymyn o fath sydd, ar ddyddiad creu'r Cynllun hwn, wedi ei ddisodli (p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) gan orchymyn adsefydlu ieuenctid.

Euogfarnau eraill

- 11. Ble mae gennych euogfarn heb ddarfod ar ddyddiad eich cais, am drosedd oedd yn cynnwys dedfryd, **ac eithrio'r rhai a restrir uchod**, byddwn yn atal neu leihau taliad oni bai fod yna resymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny. Nid yw hyn yn berthnasol i euogfarn lle roedd yr unig gosb yn un neu fwy o arnodiad, pwyntiau cosb neu ddirwy dan Atodlen 2 y Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988.
